Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau

# Nodiadau Cymorth

## Cymryd Rhan

Cyngor Celfyddydau Cymru | Chwefror 2018

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 01
Gwneud Cais Ar Lein 02

**Adran 1: Gwybodaeth am Eich Sefydliad** 04
Dogfen Lywodraethu 05
Cyfrif Banc 06

**Adran 2: Eich Prosiect** 08

Disgrifio eich Prosiect 09
Sicrhau Ansawdd Artistig 11
Budd Cyhoeddus 14
Cynllunio a Rheoli Prosiect Llwyddiannus 18
Ariannu Prosiect Llwyddiannus 21
Sut i Lenwi Cyllideb Eich Prosiect 22
Defnyddio'r Templed Cyllideb Prosiect 26
Cwblhau cyllideb eich prosiect 27

**Adran 3: Manylion y Prosiect** 33

**Adran 4: Lleoliad y Prosiect** 36

**Adran 5: Datganiad** 37

**Adran 6: Atodiadau** 38

Sut i lanlwytho eich dogfennau 38
Gwybodaeth arall i gefnogi eich cais 39

**Adran 7** 40

Beth sy'n digwydd i'ch cais? 40
Angen Rhagor o Wybodaeth? 42
Cysylltu â Ni 42
Beth i'w wneud os na allwch dderbyn arian gan y Loteri Genedlaethol 43
Ymwadiad 43




Mae'r holl ddogfen hon wedi'i hyperddolennu. Wrth glicio ar y penawdau ar y tudalen cynnwys, eir â chi'n syth i'r adran berthnasol. Cliciwch i ddychwelyd i'r tudalen cynnwys.

# Nodiadau Cymorth

# Cymryd Rhan

## Cyflwyniad

Croeso i'r Nodiadau Cymorth ar gyfer maes **Cymryd Rhan** Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau.

Nod y nodiadau hyn yw eich helpu i lenwi eich ffurflen gais ar lein.

Darllenwch ein canllaw Cychwyn Arni a'r gwybodaeth pellach am y maes ariannu Cymryd Rhan o'n Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau cyn cychwyn cais.

Byddwn yn esbonio sut i ddechrau defnyddio ein system ar-lein yn ogystal â rhoi canllaw i'r wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei rhoi inni am eich prosiect. Byddwn hefyd yn dweud wrthych pam rydym yn gofyn am wybodaeth benodol a sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch inni. Dylai pob gwybodaeth a roddwch fod mor gywir a chyfredol â phosibl.

Gwnaethom rai newidiadau pwysig am y sefydliadau a all ymgeisio ac mewn rhai mannau newidiwyd y wybodaeth sydd arnom ei hangen oddi wrthych. Darllenwch y Nodiadau Cymorth hyn yn *ofalus hyd yn oed os ymgeisiasoch yn y gorffennol* am Grantiau Celfyddydol i Sefydliadau.

Darllenwch ragor am y newidiadau a wnaethom yn ein harweiniad, Cychwyn Arni.

### Y Galw am Arian

Mae nifer fawr o sefydliadau yn gwneud cais am arian drwy'r cynllyn hwn ac yn anffodus mae llawer o geisiadau da nad ydym yn gallu eu cefnogi oherwydd nad oes digon o arian ar gael. Rydym yn gwneud ein penderfyniadau ar sail yr wybodaeth a roddwch yn eich cais, yn ogystal â'n blaenoriaethau strategol, yr hyn a wyddom am eich sefydliad a'ch gweithgareddau blaenorol. Ac rydym yn defnyddio ein barn broffesiynol i wneud y dewisiadau anodd rhwng y llu o brosiectau sy'n gwneud cais am arian. Byddwn bob amser yn ceisio ariannu'r ceisiadau sy'n cyflwyno'r achos cryfaf am gymorth.

Ni allwn gefnogi popeth, felly wrth gynllunio eich prosiect, dylech feddwl am yr hyn y byddech yn ei wneud os na fydd cais yn llwyddiannus, neu os cewch gynnig llai o arian nag y gwnaethoch gais amdano.

Gall y cyfleoedd i wneud cais a faint o arian y gallwch wneud cais amdano mewn unrhyw flwyddyn newid. Bydd hyn yn dibynnu ar faint o arian y Loteri Genedlaethol fydd ar gael i ni i'w ddosbarthu. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

### Fformatau Amgen a Hygyrch

Weithiau mae rhesymau penodol pam mae pobl yn ei chael hi'n anodd gwneud cais am grant neu gael mynediad at ein gwasanaethau. Os bydd rhwystrau, neu os byddwch yn rhagweld unrhyw rwystrau gyda'n proses gwneud cais, os bydd angen help arnoch i wneud cais, neu i gael mynediad at ein gwasanaethau a'n gwybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Gwybodaeth i drafod y math o gymorth y gallwn ei ddarparu. Mae ein manylion cyswllt yma.

## Gwneud Cais Ar Lein

Rhaid ichi drafod eich prosiect gyda ni cyn inni anfon ffurflen gais atoch.

Os oes gennych brosiect y credwch y gallai fod yn gymwys dan y maes ariannu hwn, e-bostiwch eich syniadau prosiect i: datblygu@celf.cymru

Cofiwch gynnwys y manylion canlynol:

- eich enw
- teitl y prosiect
- disgrifiad o'ch prosiect
- faint o arian sydd arnoch ei angen?
- lleoliad y prosiect

Os nad ydych yn sicr a ydych yn gymwys, os oes cwestiwn technegol gennych am y broses ymgeisio neu os ydych am gael gwybodaeth am ein gwahanol gynlluniau ariannu, cysylltwch â grantiau@celf.cymru

Os dyma eich cais cyntaf bydd angen i chi greu cyfrif pryd byddwch yn derbyn linc i'r ffurflen gais. Cliciwch ar y ddolen Cyfrif Newydd / New Account i gofrestru eich cyfeiriad e-bost a'ch cyfrinair. Dyma fydd eich manylion mewngofnodi, a bydd eu hangen arnoch chi bob tro y byddwch yn defnyddio ein system gwneud cais ar-lein. Ni ddylech rannu'r manylion mewngofnodi ag unrhyw un y tu allan i'ch sefydliad.

Pan fyddwch yn gweithio ar eich cais ar lein mae'n ddefnyddiol cofio'r canlynol:

- Gallwch lenwi eich cais mewn un cam, neu weithio arno ar wahanol adegau

- Gallwch lenwi adrannau o'r ffurflen ym mha bynnag drefn, ond dim ond pan fydd pob un o'r adrannau wedi'u llenwi y gallwch gyflwyno eich cais

- Os bydd eich ffurflen gais ar agor ar eich cyfrifiadur, ond na fyddwch yn gweithio arni am 2 awr, byddwch yn cael eich allgofnodi yn awtomatig oddi ar ein system ar-lein. Bydd unrhyw waith nad ydych wedi'i arbed yn cael ei golli

**Cwestiynau Cyffredin: Dechreuais lenwi ffurflen gais ar lein, ond erbyn hyn mae wedi diflannu. Beth ddylwn i ei wneud?**

O bryd i'w gilydd mae angen i ni ddiweddaru ein ffurflenni cais ar-lein, ac mae hyn yn golygu eu diffodd am gyfnod byr. Ar gyfer Grantiau Mawrion, mae hyn yn digwydd ar ôl pob dyddiad cau. Er mwyn sicrhau ein bod bob amser yn derbyn ceisiadau ar y ffurflenni diweddaraf, caiff unrhyw geisiadau heb eu gorffen eu dileu. Er mwyn parhau i wneud eich cais bydd angen i chi ddechrau ffurflen newydd.

Byddwch yn gallu gludo gwybodaeth i'ch ffurflen newydd o'r e-bost mwyaf diweddar a anfonwyd atoch sy'n cynnwys eich cais sydd wedi'i arbed.

**Rhestr Wirio cyn Cychwyn Arni**

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen y ddogfen Cychwyn Arni a dogfen y maes Cymryd Rhan cyn i chi ddechrau llenwi eich ffurflen gais.

**Oes gennych bopeth sydd ei angen arnoch i lenwi eich ffurflen gais?**

- Manylion cyswllt eich sefydliad a gwybodaeth am eich sefydliad (oni bai eich bod wedi gwneud cais o'r blaen gan ddefnyddio ein system ar-lein)
- Eich cynnig ysgrifenedig, gan gynnwys tystiolaeth o'r galw am eich prosiect
- Manylion eich prosiect (gan gynnwys dyddiadau, dadansoddiadau o'r ffurfiau ar gelfyddyd, targedau gweithgaredd, cydraddoldeb gwybodaeth, codau post pob canolfan neu leoliad y gweithgarwch)
- Eich dogfen lywodraethol, megis cyfansoddiad, gweithred ymddiriedolaeth neu erthyglau cwmni
- Cyllideb eich Prosiect (rhaid i hwn fod ar y templed sy'n cael ei lawrlwytho)
- Eich Cynllun Marchnata
- Llythyrau yn cefnogi eich prosiect (rhaid i chi ddarparu o leiaf dau lythyr)
- Prawf bod gan eich sefydliad gyfrif banc sydd angen dau berson o leiaf i awdurdodi trafodion
- Gwybodaeth Arall i Gefnogi Eich Cais (sydd yn ddewisol, ond gallai gynnwys enghreifftiau o waith creadigol, CVs artistiaid a gweithwyr proffesiynol creadigol eraill, astudiaethau achos, tystlythyrau, cymeradwyaeth gan sefydliadau ac unigolion y byddant yn gweithio gyda chi a llythyrau eraill o gefnogaeth)

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

# Adran 1: Gwybodaeth am Eich Sefydliad

Yn yr adran hon rydym yn gofyn i chi roi gwybodaeth sylfaenol i ni am eich sefydliad. Mae'n bwysig bod y wybodaeth a roddwch inni yn gywir a chyson ag unrhyw wybodaeth arall a roesoch inni neu ag unrhyw wybodaeth sy'n hysbys i'r cyhoedd, megis:

- gwybodaeth sydd ar eich gwefan neu sydd ar gael drwy gyfrwng eich cyfryngau cymdeithasol
- gwybodaeth y gallwn ddod o hyd iddi drwy chwilio'r rhyngrwyd neu
- gwybodaeth a ddelir gan gyrff rheoleiddio megis y Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau.

## Manylion Cyswllt

Rydym yn gofyn am o leiaf dair set o fanylion cyswllt:

- Cyfeiriad eich sefydliad (bydd yn rhaid i hwn fod yn brif swyddfa weinyddol neu brif leoliad eich sefydliad. Os ydych yn gwmni neu elusen, bydd yn rhaid i hwn fod yn gyfeiriad cofrestredig cyfredol ichi)

- Cadeirydd eich corff llywodraethol

- Y person yn eich sefydliad sydd wedi’i awdurdodi i ymdrin â phob mater sy'n ymwneud â'r cais hwn (rydym yn galw'r person hwn Brif Gyswllt)

Y Prif Gyswllt yw'r person y byddwn yn cysylltu ag ef ynghylch pob agwedd ar eich cais, a rhaid iddo gael awdurdod eich sefydliad i lofnodi a chymeradwyo dogfennau ac ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennym.

Bydd yn rhaid inni bob tro gael manylion cyswllt am ragor nag un person oddi wrth unrhyw sefydliad. Felly os yr un person yw eich Cadeirydd a'ch Prif Gyswllt, rhowch fanylion cyswllt arall sydd ag awdurdod priodol oddi wrth eich sefydliad.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd y cynnig grant yn cael ei anfon at y Prif Gyswllt. Y Prif Gyswllt fydd yn gyfrifol am anfon y wybodaeth ychwanegol y bydd ei hangen i fynd i'r afael ag unrhyw amodau penodol sy’n gysylltiedig â’r grant, yn ogystal ag unrhyw adroddiadau interim wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen. Bydd hefyd yn gyfrifol am anfon Adroddiad Cwblhau atom ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

Dim ond y tro cyntaf y byddwch yn gwneud cais i ni ar lein y byddwn yn gofyn i chi ddarparu'r manylion cyswllt hyn. Os byddwch yn penderfynu gwneud cais arall, bydd y manylion hyn eisoes wedi'u llenwi ar y ffurflen gais ar-lein a gallwch eu hadolygu a'u diweddaru os bydd angen.

## Ymwneud trydydd parti

Bydd yn rhaid i bob cais fod yn waith eich sefydliad ac nid eiddo trydydd parti. Hyd yn oed os cawsoch gymorth wrth ddatblygu eich cais, bydd yn rhaid i'r manylion cyswllt a ddarparwch fod yn unigolyn yn eich sefydliad chi sydd ag awdurdod priodol i benderfynu a llofnodi dogfennau megis contractau a chytundebau ariannu ar ran eich sefydliad.

Cofiwch na allwn gefnogi unrhyw gostau a godir arnoch am gyngor neu gymorth wrth lunio eich cais.

Yn rhan o'n gweithdrefnau gwrth-dwyll, archwiliwn unrhyw ffurflen gais a gyflwynir sy'n debyg iawn i eraill a gawsom. Gwnawn archwiliad hefyd os cyflwynir cais yn enw eich sefydliad a chawn wybod wedyn nad ydych yn ymwybodol o'r prosiect neu'r cais am arian.

## Eich sefydliad a'i brif feysydd gweithgarwch

Rydym yn aml yn cael ein holi am y mathau o sefydliadau rydym yn eu hariannu a pha weithgareddau celfyddydol y maen nhw'n eu cynnal fel arfer. Bydd y wybodaeth a roddwch i ni yma yn ein helpu i ateb y cwestiynau hyn. Bydd hefyd yn ein helpu pan fyddwn yn asesu eich cais. Mae tri pheth y dylech chi ei wneud:

- Dweud wrthym am eich sefydliad. Dim ond 500 o eiriau y gallwch eu hysgrifennu, felly meddyliwch am y ffeithiau allweddol sy'n crynhoi eich sefydliad a'ch gweithgarwch celfyddydol arferol.
- Dewis y categori mwyaf priodol o'r cwymplenni. Os ydych yn ansicr o ranbarth y Llywodraeth, defnyddiwch ein hofferyn chwilio codau post ar-lein.
- Dweud wrthym faint o staff cyflogedig neu staff gwirfoddol sydd gennych. Mae hyn yn ein helpu i ddeall maint eich sefydliad a nifer y bobl a fydd yn cefnogi eich prosiect. Gofynnwn i chi dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

## Dogfen lywodraethu

Rhaid ichi gyflwyno dogfen lywodraethu eich sefydliad (megis cyfansoddiad, gweithred ymddiriedolaethol neu erthyglau cymdeithasu) gyda'ch cais, oni bai eich bod yn ysgol, Cyngor Tref, awdurdod lleol, corff iechyd neu brifysgol (oherwydd y mae'r rhain yn gyrff statudol).

Noda eich dogfen lywodraethu sut y gweithia eich sefydliad, ei nod a sut mae'n diwallu'r nod hwnnw.

Cymerwn y cyfrifoldeb am ddosbarthu arian cyhoeddus o ddifrif, a dyna'r rheswm y mae sut y gweithredwch yn bwysig inni. Rhaid inni fod yn siŵr bod eich sefydliad wedi'i sefydlu'n briodol ac y gall reoli'n grant yn iawn.

Mae cyflwyno'r wybodaeth hon yn orfodol am y caiff ei defnyddio i wirio a ydych yn gymwys i ymgeisio ac y bydd, o bosibl, o gymorth inni wrth asesu eich cais. Ni dderbyniwn eich cais hebddi.

Os cawsom gopi o'ch dogfen lywodraethu ar ôl Ionawr 2016, nid oes raid ei hailgyflwyno oni chafodd ei newid.

Gallwch ddarllen rhagor am ein gwiriadau cymhwysedd a'r hyn a geisiwn yn eich dogfen lywodraethu yn ein canllaw Dechrau Arni. Mae ffynonellau eraill o gyngor yn ein ffeithlen lywodraethu.

Chwiliwn drwy eich dogfen lywodraethu i gael gwybod am agweddau penodol sydd yn ein meini prawf cymhwysedd ac asesu. Ond wrth wneud hynny, nid adolygwn yn drylwyr gadernid neu iechyd eich sefydliad. Ni chefnogwn o reidrwydd ychwaith eich ffordd o fynd ati o ran llywodraethu. Os cofrestrir eich sefydliad gyda Thŷ'r Cwmnïau neu'r Comisiwn Elusennau, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion rheoleiddio priodol.

## Cyfrif Banc

Bydd yn rhaid ichi gyflwyno tystiolaeth sy'n dangos bod gennych gyfrif banc yn enw eich sefydliad sydd gyda phrawf fod o leiaf ddau berson (llofnodwyr ar y cyfrif) a all awdurdodi trafodion. Pan ddywedwn 'drafodion', golygwn dynnu arian o gyfrif y sefydliad, trosglwyddo arian neu dalu arian i mewn. Ni allwn dderbyn cyfrifon cymdeithas adeiladu sy'n gweithio ar system cael llyfr pas yn unig.

Ni fydd yn rhaid i gyrff statudol (megis lleoliadau celfyddydol neu ysgolion sydd o dan reolaeth-awdurdod lleol, cynghorau tref, byrddau iechyd neu brifysgolion) ddarparu'r wybodaeth hon. Yn yr achosion yma, rhaid i'r manylion y cyfrif fod yn enw'r sefydliad ei hun, neu yn enw'r awdurdod lleol.

Mae hyn yn ein helpu i wirio eich bod yn gymwys i wneud cais (i gael rhagor o wybodaeth, gweler ein dogfen Cychwyn Arni) ac mae'n ein helpu i ddeall sut y rheolwch eich arian.

Cymerwn y cyfrifoldeb o ddosbarthu arian y cyhoedd o ddifrif a dyma pam mae'r ffordd y rhedwch eich arian yn bwysig inni. Disgwyliwn i'r sefydliadau a ariannwn feddu ar reolaethau priodol sydd hefyd ar waith sy'n sicrhau y gallant reoli'n effeithiol a phriodol unrhyw arian a gânt. Un o'r mesurau hyn yw gofyn am dystiolaeth sy'n profi bod dau berson o leiaf yn gallu awdurdodi trafodion.

Am beth yr ydym yn chwilio?

Cofiwch y chwiliwn am brawf o **rif eich cyfrif** a'ch **côd didoli**, bod y **cyfrif yn enw eich sefydliad** a bod angen o leiaf **ddau berson i awdurdodi trafodion**. Bydd yn rhaid ichi ddarparu'r dystiolaeth yma ar ffurf **gyfathrebiad swyddogol gan y banc**. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r mathau o ddogfennau y gellid eu darparu i ddiwallu'r gofyniad hwn:

- Ffotos o bob cerdyn banc ar y cyfrif sy'n dangos enwau'r holl lofnodwyr, enw a rhif y cyfrif a'r côd didoli. (Os nad yw enw'r sefydliad ar y garden, bydd rhaid cyflwyno gwybodaeth ychwanegol sy'n cysylltu'ch sefydliad i rif y cyfrif)

- Llythyr neu e-bost a ddengys yn glir y daeth o'ch banc sy'n cadarnhau'r wybodaeth ofynnol

- Cipluniau sgrin o bob llofnodwr wedi'i fewngofnodi i wasanaethau bancio ar-lein sy'n dangos ei enw ymhlith gwybodaeth fancio'r sefydliad. Gwnewch yn siŵr bod y ciplun sgrin yn darparu'r holl wybodaeth y gofynnwn amdani

Mae'n bosib bydd rhaid i chi ddarparu sawl dogfen er mwyn sicrhau fod y cyfrif yn gallu cael ei wireddu.

Os na wyddoch a yw'ch gwybodaeth yn bodloni'r gofyniad, e-bostiwch: buddsoddiacariannu@celf.cymru gyda'r dystiolaeth fel y gallwn eich cynghori.

Os llwydda eich cais, gofynnwn ichi ddarparu rhagor o fanylion am eich cyfrif. Ni allwn ryddhau unrhyw daliadau nes inni gael a gwirio'r wybodaeth hon. Cymerir unrhyw ddiffyg cysondeb o ddifrif ac archwiliwn y mater.

Mae'n rhaid ichi gyflwyno'r wybodaeth hon am eich cyfrif banc. Ni fyddwn yn gallu derbyn eich cais hebddi.

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

# Adran 2: Eich Prosiect

Yn yr adran hon rydym yn gofyn i chi roi gwybodaeth fanwl i ni am eich prosiect. Yn hytrach na gofyn i chi ateb llawer o gwestiynau, hoffem i chi ysgrifennu cynnig am eich prosiect.

Mae'n rhaid i'r wybodaeth gael ei rhannu'n adrannau fel a ganlyn:

- Disgrifiad o'ch prosiect
- Sicrhau ansawdd artistig
- Budd cyhoeddus
- Cynllunio a rheoli prosiect llwyddiannus
- Ariannu prosiect llwyddiannus

Mae'n bwysig eich bod yn dilyn y strwythur hwn a'r canllawiau ar y wybodaeth y mae angen i chi ei darparu. Mae hyn yn ein helpu i gymharu tebyg at ei debyg fel rhan o'n proses asesu.

Ym mhob rhan o'ch cais bydd angen i chi ddweud rhai ffeithiau allweddol wrthym am eich prosiect. Bydd angen i chi hefyd ddangos i ni i ba raddau y mae eich prosiect yn bodloni ein disgwyliadau ar gyfer pob un o'r adrannau hyn.

Lle bynnag y bo modd, rhowch dystiolaeth i gefnogi eich cynnig, er enghraifft, tystlythyrau ac enghreifftiau o'ch gwaith creadigol. Byddwn yn dweud mwy wrthych am sut i wneud hyn, ac am y dogfennau ategol y mae'n rhaid i chi eu darparu, yn adran 6.

Byddwn yn dweud wrthych pa wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei rhoi i ni.

### Uchafswm geiriau

Mae uchafswm o ran nifer y geiriau gallwch eu hysgrifennu ym mhob adran o'r cynnig:

- Yr uchafswm yw **450** o eiriau ar gyfer ceisiadau am **Grantiau Bychain**
- Yr uchafswm yw **750** o eiriau ar gyfer ceisiadau am **Grantiau Mawrion**

Fel canllaw, mae un ochr o bapur A4 wedi'i deipio yn cynnwys tua 500 o eiriau.

**Awgrymiadau ar Sut i Ysgrifennu Eich Cynnig**

- Ysgrifennwch mewn iaith glir, syml, gan osgoi jargon, acronymau a byrfoddau
- Ysgrifennu am ffeithiau, nid am bethau cyffredinol
- Cefnogwch yr hyn a ddywedwch drwy ddarparu tystiolaeth neu hyperddolenni i ffynonellau allanol
- Cofiwch fod uchafswm geiriau ar gyfer pob adran, felly canolbwyntiwch ar roi'r wybodaeth allweddol i ni

## Disgrifio eich Prosiect

### Dywedwch wrthym am eich prosiect, pam mae ei angen a pham rydych eisiau ei wneud

Dywedwch y ffeithiau allweddol wrthym am eich prosiect. Byddwn yn gofyn i chi am wybodaeth fwy manwl yn nes ymlaen, ond yma rydym am i chi grynhoi'r hyn rydych am ei wneud a'r hyn y bydd yn ei gyflawni, pam rydych eisiau ei wneud a pham ei fod yn bwysig i chi.

Y man cychwyn ar gyfer unrhyw brosiect da yw nodi'r angen, felly rydym hefyd eisiau gwybod pam rydych yn credu bod angen eich prosiect. Defnyddiwn y term "angen" i olygu mater neu sefyllfa lle y gellid newid rhywbeth er mwyn gwella pethau. Byddwn hefyd am weld y dystiolaeth o'r galw am eich prosiect.

**Cwestiynau Cyffredin: Sut y gallwn ddangos i chi bod galw am ein prosiect?**

Mae sawl math gwahanol o dystiolaeth am y galw ac mae'n dibynnu ar y math o brosiect rydych am ei gyflawni a'r bobl y mae wedi ei anelu atynt. Dyma ychydig enghreifftiau y gellir eu defnyddio i ddangos galw am brosiect:

- Canlyniadau cyfnod ymchwil a datblygu blaenorol
- Canlyniadau a chanfyddiadau gwerthusiad o brosiect blaenorol
- Ymchwil o ansawdd uchel a thystiolaeth a gynhyrchwyd gan bobl eraill
- Llythyrau o gefnogaeth gan bobl rydych wedi siarad â nhw am eich prosiect, megis:
    - Cyfarwyddwyr canolfan neu oriel a hoffai gyflwyno eich gwaith

- Swyddogion awdurdodau lleol neu randdeiliaid allweddol eraill y byddai eich prosiect yn helpu i lenwi bwlch strategol yn y ddarpariaeth
- Cynrychiolwyr grwpiau targed yr ydych am eu cynnwys yn eich prosiect

Yn eich cynnig dylech:

- Ddweud wrthym am eich prosiect.
  - **I bwy** mae'r prosiect?
  - **Pa** weithgarwch celfyddydol fydd yn cael ei gynnal?
  - **Lle** y bydd y gweithgarwch yn digwydd?
  - **Pryd** y bydd y gweithgarwch yn digwydd?

- Dangos i ni sut rydych yn gwybod bod angen eich prosiect:
  - Pa dystiolaeth sydd gennych o'r galw?
  - Gyda phwy rydych wedi siarad am eich prosiect a beth wnaethoch chi ei ddarganfod?
  - A oes unrhyw strategaethau neu fentrau presennol sy'n berthnasol i'ch prosiect? Gallai hyn fod ar lefel genedlaethol, rhanbarthol neu leol, er enghraifft, dogfennau Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'n dogfennau ein hunain megis ein strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau, sy'n dwyn y teitl *Ysbrydoli*

- Dweud wrthym pam rydych yn meddwl bod eich prosiect yn diwallu'r angen a

Atodiad: Llythyrau o Gefnogaeth

Rhaid i chi lanlwytho o leiaf ddau lythyr yn cefnogi eich prosiect. Rhaid i'r rhain fod yn llythyrau gan drydydd partïon annibynnol (sydd ddim yn cael eu talu fel rhan o'ch prosiect), ac nid gan rywun o'ch sefydliad. Maen nhw'n bwysig gan eu bod yn dilysu eich prosiect arfaethedig.

Bydd angen i awduron y llythyrau ddangos dealltwriaeth o'r hyn mae eich prosiect yn ceisio ei gyflawni a bydd angen iddynt egluro pam maen nhw'n ei gefnogi. Os ydynt yn cynnig cymorth ariannol neu gymorth mewn nwyddau, dylent ddweud yn glir wrthym beth yw'r cymorth hwnnw a chadarnhau'r gwerth.

Mae cyflwyno'r llythyrau hyn o gefnogaeth yn orfodol gan eu bod yn rhan hanfodol o'r asesiad. Ni fyddwn yn gallu derbyn eich cais hebddynt.

Cliciwch yma i gael gwybod sut i lanlwytho eich llythyrau o gefnogaeth.

Gallwch hefyd gyflwyno dogfennau eraill, fel llythyrau sy'n cefnogi eich barn bod angen eich prosiect, ac sy'n cymeradwyo eich sefydliad a'i waith blaenorol. Gallwch ddarllen mwy yn adran 6.

**Yn yr adran hon rydym yn edrych am:**

- Ddisgrifiad clir ac argyhoeddiadol o brosiect sy'n seiliedig ar waith ymchwil da
- I ba raddau rydych yn dangos yr angen a'r galw am eich prosiect
- I ba raddau mae eich prosiect yn diwallu'r angen a nodwyd gennych
- I ba raddau mae'r prosiect yn cyd-fynd â'n strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau, sy'n dwyn y teitl *Ysbrydoli*, a strategaethau neu fentrau cenedlaethol, rhanbarthol neu leol perthnasol eraill
- I ba raddau mae eich llythyrau o gefnogaeth yn rhoi cymeradwyaeth ystyrlon i'ch sefydliad a'ch prosiect

## Sicrhau ansawdd artistig

**Dywedwch wrthym am eich syniad creadigol. Beth rydych chi eisiau ei gyflawni? Sut mae eich prosiect yn defnyddio eich gwaith artistig blaenorol? Dywedwch wrthym sut y byddwch yn sicrhau eich bod yn cyflawni prosiect o ansawdd?**

Rydym yn uchelgeisiol ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru ac rydym eisiau i Grantiau Celfyddydol i Sefydliadau gefnogi gwaith o ansawdd. Rydym eisiau buddsoddi mewn prosiectau sy'n cynrychioli'r celfyddydau gorau yng Nghymru.

Gall diffinio "ansawdd" fod yn anodd. Mae'n dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys y cysyniad artistig, ei ddatblygiad a'i weithrediad, gweithwyr proffesiynol creadigol a sefydliadau celfyddydol eraill y byddwch yn gweithio gyda nhw, a phartneriaethau gyda rhanddeiliaid eraill. Gall hefyd ddibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael i chi, er nad yw arian yn gwarantu canlyniad o ansawdd.

**Cwestiynau Cyffredin: Sut y gallwn ddangos i chi y byddwn yn cyflawni prosiect o ansawdd uchel?**

Rydym yn gwybod na allwch warantu beth fydd canlyniadau prosiect. Ond mae yna bethau rydym yn edrych amdanynt sy'n ein helpu i farnu pa mor debygol y byddwch o gyflawni prosiect o safon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Eich hanes: profiad blaenorol a chyflawniadau artistig, a safon y gwaith rydych yn ei wneud fel arfer

- Ansawdd a chanlyniadau unrhyw brosiect blaenorol a ariannwyd gennym
- Cymeradwyaeth a chefnogaeth gan y sector rydych yn gweithio ynddo
- Adolygiadau a gwerthusiadau beirniadol o'ch gwaith blaenorol
- Tystiolaeth o gynllunio trylwyr a nodau ac amcanion clir
- Ansawdd y gweithwyr proffesiynol creadigol a sefydliadau celfyddydol eraill a fydd yn gweithio gyda chi ar y prosiect
- Priodoldeb a chryfder y partneriaethau sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni eich prosiect

Mae tair rhan i'r adran hon. Rydym eisiau gwybod am y syniad creadigol neu'r weledigaeth ar gyfer eich prosiect, a'r rhesymau y tu ôl i'r penderfyniadau creadigol rydych wedi eu cymryd hyd yn hyn.

Rydym hefyd am i chi ddweud wrthym am eich gwaith artistig arferol. Bydd deall mwy am eich hanes yn ein helpu i farnu a yw'r prosiect yr hoffech ei gyflawni yn cyd-fynd â'ch profiad a'ch cyflawniadau hyd yn hyn.

Eich Syniad Creadigol

**Yn eich cynnig dylech:**

- Ddweud wrthym am y syniad creadigol neu'r weledigaeth sydd wrth wraidd eich prosiect?
- Dweud wrthym pam rydych chi eisiau cyflawni'r prosiect hwn a beth rydych chi eisiau ei gyflawni.
- Dweud wrthym beth, neu pwy, yw'r ysbrydoliaeth artistig ar gyfer eich prosiect
- Dangos i ni sut y bydd eich prosiect yn denu sylw o gymharu â phrosiectau eraill. Beth sy'n ei wneud yn unigryw, yn berthnasol, yn ddychmygus ac yn gymhellol?
- Dweud wrthym sut y byddwch yn sicrhau eich bod yn cyflawni prosiect o ansawdd?

Eich Dull Gweithredu Creadigol

**Yn eich cynnig dylech:**

- Ddweud wrthym pam rydych wedi dewis teitl penodol, thema neu leoliad, os yw'n briodol ar gyfer eich prosiect

- Dweud wrthym pa waith ymchwil a datblygu rydych wedi'i gwblhau i ddatblygu eich prosiect hyd yma

- Dweud wrthym pam rydych wedi dewis gweithwyr proffesiynol creadigol neu sefydliadau celfyddydol penodol i weithio gyda chi, a'r hyn y byddant yn ei gyfrannu at eich prosiect

- Dweud wrthym a fydd eich prosiect yn cryfhau partneriaethau creadigol sy'n bodoli eisoes, neu, os yw'n brosiect newydd, dweud wrthym sut mae hyn wedi digwydd

- Dweud wrthym beth yw eich dull o sicrhau ansawdd:

    - A ydych yn gweithio gyda ffrind beirniadol neu fentor creadigol? (Gallai hwn fod yn weithiwr proffesiynol creadigol neu'n sefydliad celfyddydol arall)
    - A yw adolygiad gan gymheiriaid yn chwarae rhan yn y broses o ddatblygu a chyflawni eich prosiect?

Os ydych eisoes wedi dewis y gweithwyr proffesiynol creadigol, cyfaill beirniadol neu fentor creadigol a fydd yn gweithio gyda chi, dylech gyflwyno eu CVau. Bydd angen i chi ddweud wrthym sut y cawsant eu dewis. Rhaid i unrhyw staff y prosiect (gan gynnwys gweithwyr proffesiynol creadigol) sy'n cael cyflog o fwy na £5,000 gael eu recriwtio drwy broses ddethol agored, oni bai bod rheswm artistig penodol a phwysig dros wneud yn wahanol.

Gallwch ddarllen mwy am atodiadau yn adran 6.

### Eich Hanes Artistig

### Yn eich cynnig dylech:

- Ddweud wrthym yn gryno am eich gwaith a'ch cyflawniadau artistig perthnasol diweddar

- Dangos i ni sut mae eich prosiect yn tynnu ar eich gwaith artistig blaenorol

- Dangos i ni sut mae eich hanes artistig yn llwyfan ar gyfer y prosiect newydd hwn

- Dweud wrthym os yw eich prosiect yn mynd â chi i gyfeiriad creadigol newydd. Os ydyw, beth yw'r rhesymeg greadigol ar gyfer hyn?

### Yn yr adran hon rydym yn edrych am:

- Syniad neu weledigaeth greadigol gymhellol sydd wrth wraidd eich prosiect ac sy'n cael ei adlewyrchu yn y ffordd y caiff ei gynllunio a'i gyflawni

Safon, hanes a phriodolrwydd y gweithwyr proffesiynol creadigol a'r sefydliadau celfyddydol eraill a fydd yn gweithio gyda chi

- Pa mor briodol yw eich prosiect i hanes artistig eich sefydliad a'ch profiad a'ch cyflawniadau hyd yma

## Budd Cyhoeddus

**Dywedwch wrthym am effaith eich prosiect (canlyniadau'r prosiect). Dywedwch wrthym am y budd a ddaw yn ei sgil i bobl Cymru. Dywedwch wrthym sut y bydd yn cyfrannu at y celfyddydau yng Nghymru.**

Mae budd cyhoeddus yn un o gonglfeini arian y Loteri. Mae'r celfyddydau yn un o'r "achosion da" sy'n cael arian gan y Loteri Genedlaethol, a daw'r arian hwnnw gan aelodau o'r cyhoedd sy'n prynu tocynnau Loteri. Fel Cyngor Celfyddydau Cymru mae'n ofynnol i ni ddefnyddio ein harian ar gyfer prosiectau sydd o fudd i artistiaid, cynulleidfaoedd, cyfranogwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru. Rydym yn cymryd y cyfrifoldeb hwnnw o ddifrif ac rydym yn disgwyl i chi wneud hynny hefyd.

Rydym eisiau gweld sut y bydd eich prosiect yn cael effaith gadarnhaol ar bobl Cymru, naill ai fel aelodau o gynulleidfa neu gyfranogwyr, a beth fydd ei waddol.

Rydym hefyd am weld sut y bydd eich prosiect yn cyfrannu at y celfyddydau yng Nghymru. Mae hynny oherwydd mai ni yw'r corff cyhoeddus sy'n gyfrifol am ddatblygu'r celfyddydau yng Nghymru, ac felly rydym eisiau cefnogi prosiectau sy'n helpu i ddatblygu'r sector celfyddydol yma.

**Cwestiynau Cyffredin: Nid wyf yn deall yr hyn a olygir wrth "cyfrannu at y celfyddydau yng Nghymru"?**

Mae pob prosiect yn unigryw yn y ffordd y mae'n gwneud cyfraniad at y celfyddydau yng Nghymru. Dyma rai enghreifftiau i feddwl amdanynt:

- A fydd eich prosiect yn helpu i ddatblygu ymarfer creadigol neu ddatblygu ffurf benodol ar gelfyddyd?
- A fydd eich prosiect yn creu gwaith neu wasanaethau artistig a fydd o fudd i sefydliadau celfyddydol / gweithwyr proffesiynol creadigol eraill?
- A fydd eich prosiect yn llenwi bwlch strategol yn y ddarpariaeth?
- A fydd eich prosiect yn helpu i wella ansawdd gwaith artistig yng Nghymru?

- A fydd eich prosiect yn darparu cyfleoedd cyflogaeth i weithwyr proffesiynol creadigol?
- A fydd eich prosiect yn datblygu partneriaethau newydd ac arloesol a chydweithio creadigol?
- A fydd eich prosiect yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth, datblygu sgiliau, mentora neu gyfleoedd rhwydweithio?

Yn yr adran hon rydym eisiau i chi ddweud wrthym sut mae eich prosiect yn ymateb i rai materion y credwn eu bod yn sylfaenol bwysig.

Mae Cymru yn wlad ddwyieithog - yn gyfreithiol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, ac fel unigolion a chymunedau - ac nid oes dim sy'n gwneud Cymru'n fwy unigryw na'r Gymraeg. Rydym yn disgwyl i bobl allu ymgysylltu â'r celfyddydau yn yr iaith o'u dewis, boed fel cynulleidfa, cyfranogwr neu artist. Byddwn yn disgwyl i chi adlewyrchu hyn yn briodol yn eich prosiect.

Rydym am i'r celfyddydau yng Nghymru fod yn fwy cynhwysol ac ymgysylltiedig. Felly, rydym am i'r sefydliadau a byddwn yn eu hariannu ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhopeth a wnânt. Rydym hefyd yn awyddus i ymestyn cyrhaeddiad ein harian i ardaloedd o amddifadedd cydnabyddedig. Byddwn yn disgwyl i chi ddangos sut rydych wedi ystyried y materion hyn yn yr adran hon o'ch cynnig.

Gallwch ddarllen mwy am yr hyn rydym yn ei ddisgwyl gennych o ran budd cyhoeddus yn y ddogfen Ysbrydoli ac yn nogfen y maes Cymryd Rhan, sy'n amlygu'r grwpiau penodol rydym eisiau eu cyrraedd.

**Budd i Bobl Cymru**

**Yn eich cynnig dylech:**

- Ddweud wrthym am ganlyniadau eich prosiect
- Dweud wrthym pwy fydd yn elwa ar eich prosiect, naill ai fel aelodau cynulleidfa neu gyfranogwyr, neu mewn ffyrdd eraill:
    - Dangoswch i ni sut rydych wedi nodi'r grwpiau hyn
    - Dywedwch wrthym pam eich prosiect yn addas ar gyfer aelodau arfaethedig eich cynulleidfa neu'ch cyfranogwyr arfaethedig
    - Dangos i ni sut mae eich prosiect yn cynnig cyfleoedd ystyrlon nid symbolaidd i bobl gymryd rhan

- Dweud wrthym sut y byddwch yn cyrraedd ac yn denu pobl i fod yn bresennol neu i gymryd rhan yn eich prosiect (Rhaid i chi gyflwyno cynllun marchnata a fydd yn eich helpu i ddangos hyn)
    - Dywedwch wrthym sut bydd eich prosiect yn mynd i'r afael â'r rhwystrau i ymgysylltu ac yn ymestyn allan mor eang â phosibl i gynulleidfaoedd a chyfranogwyr
    - Dangoswch i ni sut y byddwch yn cyrraedd cynulleidfaoedd a chyfranogwyr mewn ardaloedd o amddifadedd cydnabyddedig, megis ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

- Dweud wrthym sut y byddwch yn sicrhau y bydd y cyfranogwyr yn cael profiad o ansawdd uchel sy'n berthnasol, sy'n rhoi boddhad iddynt ac sy'n eu hysbydoli

- Dangos i ni sut gallai eich prosiect gael effaith barhaol ar gyfranogwyr ac aelodau'r gynulleidfa

- Dangos i ni sut mae eich prosiect yn adlewyrchu'r ffaith bod Cymru yn genedl ddwyieithog

**Atodiad: Cynllun Marchnata**

Bydd angen i chi gyflwyno cynllun marchnata ar gyfer eich prosiect. Bydd datblygu eich cynllun marchnata yn eich helpu i ganolbwyntio ar bwy rydych am eu cyrraedd a sut rydych yn mynd i'w cyrraedd.

Mae angen i ni wybod sut rydych yn mynd i gyrraedd a denu'r bobl a fydd yn cymryd rhan yn eich prosiect neu'n ei fynychu. Bydd angen i chi ddangos eich bod yn deall eich grwpiau targed ac wedi gwneud rhywfaint o ddadansoddiad o gynulleidfaoedd a chyfranogwyr posibl (efallai y bydd peth o'r data ar Ymchwil i gynulleidfaoedd sydd ar ein gwefan yn ddefnyddiol ar gyfer hyn). Byddwn hefyd yn disgwyl i chi fod wedi ystyried y ffyrdd gorau o gyfathrebu â gwahanol fathau o bobl, yn ogystal â sut y byddwch yn defnyddio'r cyfryngau (gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol) i hyrwyddo eich prosiect.

Byddwn yn disgwyl i'ch cynllun marchnata gynnwys amserlen sy'n nodi pryd y bydd gwahanol fathau o weithgarwch marchnata yn cael ei wneud. Byddwn yn hefyd yn adolygu'r costau marchnata rydych yn eu cynnwys yng nghyllideb eich prosiect i wneud yn siŵr eu bod yn briodol ar gyfer yr hyn rydych yn bwriadu ei wneud.

Mae angen i ni fod yn hyderus bod eich cynllun marchnata yn ymarferol ac yn realistig. Byddwn yn disgwyl iddo fod yn briodol i faint eich prosiect, a bydd y manylion y mae angen i chi eu cynnwys yn adlewyrchu ei gwmpas a'i nodau a'i amcanion.

Ar ein gwefan mae arweiniad deg cam syml i lunio eich cynllun marchnata a chyfathrebu. Mae gennym hefyd dempledi y gallwch eu defnyddio ar gyfer pob math o brosiectau ac wrth wneud cais am ein harian.

Mae cyflwyno cynllun marchnata yn orfodol gan ei fod yn rhan hanfodol o'r asesiad. Ni fyddwn yn gallu derbyn eich cais hebddo.

Cliciwch yma i gael gwybod sut i lanlwytho eich cynllun marchnata.

**Cyfraniad at y Celfyddydau yng Nghymru**

**Yn eich cynnig dylech:**

- Ddweud wrthym sut mae eich prosiect yn cyfrannu at ddatblygiad y sector yng Nghymru
    - Os yw eich prosiect yn ymwneud â sefydlu grŵp celfyddydol ieuenctid newydd neu rwydwaith, dywedwch wrthym sut y bydd eich prosiect yn gynaliadwy y tu hwnt i'r sefydlu cychwynnol gyfnod o ddwy flynedd

- Dangos i ni sut mae eich prosiect yn berthnasol ac yn bwysig i'r ffurf(iau) ar gelfyddyd rydych yn gweithio â nhw
- Dweud wrthym sut y bydd eich prosiect yn codi safonau a / neu'n cynnal rhagoriaeth artistig yn y ffurf(iau) ar gelfyddyd rydych yn gweithio â nhw

Os ydych yn bwriadu prynu eitem o offer cyfalaf yn benodol ar gyfer eich prosiect, bydd angen i chi ddweud wrthym sut y bydd yr offer yn cael ei ddefnyddio yn ystod ac ar ôl y prosiect. (Bydd angen i chi hefyd gyflwyno tri dyfynbris ar gyfer unrhyw eitem unigol sy'n costio mwy na £500).

**Yn yr adran hon rydym yn edrych am:**

- Ddisgrifiad clir a manwl o ganlyniadau arfaethedig eich prosiect a'i effaith ar eich buddiolwyr arfaethedig

- I ba raddau y mae canlyniadau'r prosiect rydych yn bwriadu ei gyflawni yn realistig ac yn gyraeddadwy

- I ba raddau y mae eich cynlluniau i ymestyn allan a denu pobl i'ch prosiect yn briodol ac yn gyraeddadwy

- I ba raddau rydych wedi ystyried materion yn ymwneud â chynhwysiant, cydraddoldeb ac amrywiaeth yn eich prosiect ac a oes cynlluniau credadwy i leihau'r rhwystrau i bresenoldeb a chyfranogiad

- I ba raddau y bydd eich prosiect yn cyfrannu at ddatblygiad y celfyddydau yng Nghymru

## Cynllunio a Rheoli Prosiect Llwyddiannus

**Dywedwch wrthym am ddull gweithredu eich prosiect. Dywedwch wrthym pwy fydd yn gyfrifol am ei gyflawni. Dywedwch wrthym sut y byddwch yn cadw eich prosiect ar y trywydd cywir, a sut y byddwch yn gwybod ei fod wedi bod yn llwyddiannus**

Rydym yn gwybod bod prosiect sydd wedi'i gynllunio'n dda ac sy'n cael ei reoli'n effeithiol yn fwy tebygol o arwain at ganlyniad llwyddiannus. Felly, rydym eisiau gwybod bod eich sefydliad wedi'i sefydlu'n iawn, yn cael ei redeg yn dda, a bod ganddo'r cynhwysedd a'r sgiliau cywir a'r profiad i gyflawni eich prosiect yn llwyddiannus, ochr yn ochr â'ch gwaith arferol. Rydym hefyd eisiau gwybod sut rydych wedi mynd ati i gynllunio eich prosiect. Gallem ofyn ichi yn nes ymlaen am eich cyfrifon blynyddol os credwn y gall hyn ein helpu wrth asesu eich cais.

Rydym hefyd eisiau gwybod sut rydych wedi mynd ati i gynllunio eich prosiect. Byddwn yn disgwyl gweld cyfranogiad llawn y bobl rydych yn bwriadu iddynt gymryd rhan yn eich gweithgareddau celfyddydol, a bydd angen i chi ddangos i ni eich bod wedi ymgynghori â'ch buddiolwyr arfaethedig a'u bod wedi bod yn rhan o'r broses gynllunio o'r cychwyn cyntaf. Yn benodol, byddwn yn disgwyl gweld prosiectau yn cael eu **harwain** gan y plant a'r bobl ifanc y maent wedi eu hanelu atynt.

Rydym hefyd am i chi ddweud wrthym sut byddwch chi'n monitro cynnydd eich prosiect ac yn cadw pethau ar y trywydd cywir, a sut y byddwch chi'n gwerthuso effaith eich prosiect pan fydd wedi'i gwblhau. Drwy fabwysiadu dull strwythuredig o fonitro eich prosiect, gallwch ymateb yn gyflym i unrhyw faterion wrth iddyn nhw godi a newid cynllun eich prosiect yn unol â hynny.

Mae gwerthuso yn rhan hanfodol o unrhyw brosiect, ac mae'n fwy syml os ydych yn meddwl amdano ar y cychwyn. Yn syml, ffordd strwythuredig o feddwl am yr hyn sydd wedi digwydd yw gwerthuso.

Mewn cyfnod ariannol anodd pan fydd mwy o bwysau ar yr arian sydd ar gael, gall gwerthusiad da fod yn arf gwych i'ch helpu i fod yn fwy hyfyw a gwydn yn ariannol, gan ei fod yn dangos i gyllidwyr a rhanddeiliaid eraill beth yw ansawdd ac effaith yr hyn y gallwch ei gyflawni.

Cofiwch y byddwn yn gofyn i chi lenwi Adroddiad Cwblhau ar ôl i'ch prosiect ddod i ben, felly bydd yr holl waith monitro a gwerthuso y byddwch yn ei wneud yn ystod y prosiect ac ar ei ôl yn gwneud hyn yn haws.

### Cynllunio eich Prosiect

**Yn eich cynnig dylech:**

- Ddweud wrthym beth yw nodau ac amcanion eich prosiect. Sut wnaethoch chi gytuno ar y rhain?

- Dangos i ni sut mae eich prosiect yn cyd-fynd ag amcanion eich sefydliad a'i Gynllun Busnes cyfredol:
    - Pam mae'n briodol i chi i gyflawni'r prosiect hwn?
    - Sut mae'n ychwanegol at eich gwaith arferol?

- Dangos i ni eich bod wedi ystyried effaith eich prosiect ar allu eich sefydliad i gyflawni ei weithgarwch arferol:
    - A fydd yr effeithiau hirdymor ar eich sefydliad yn sgil cyflawni'r prosiect hwn?

- Dweud wrthym am gynllun eich prosiect:
    - Sut rydych chi wedi datblygu cynllun y prosiect, a pham rydych yn credu ei fod yn gyraeddadwy?
    - Sut rydych chi wedi cynnwys y cyfranogwyr arfaethedig wrth arwain a chynllunio'r prosiect o'r cychwyn cyntaf?
    - Beth yw cyfnodau allweddol y gweithgaredd?
    - Sut rydych wedi sicrhau bod y terfynau amser yn realistig?

- Dweud wrthym a ydych yn gweithio mewn partneriaeth ag unrhyw sefydliadau neu weithwyr proffesiynol creadigol eraill:
    - Dywedwch wrthym am eu rôl a sut y daeth y bartneriaeth i fod
    - Dywedwch wrthym pa gymorth ymarferol neu ariannol y bydd y bartneriaeth yn ei darparu
    - Dywedwch wrthym sut y byddwch yn sicrhau eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau yr holl bartneriaid sy'n rhan o'r prosiect

- Dangos i ni sut rydych wedi ceisio lleihau'r effaith amgylcheddol eich prosiect

Efallai y byddwch yn dymuno cyflwyno cynllun prosiect yn eich fformat eich hun fel un o'ch dogfennau ategol. Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth am atodiadau.

### Rheoli eich prosiect

### Yn eich cynnig dylech:

- Ddangos i ni bod gennych y sgiliau, y profiad a'r gallu i gyflawni eich prosiect yn llwyddiannus:
    - Dywedwch wrthym pwy fydd yn gyfrifol am redeg y prosiect o ddydd i ddydd
    - Dywedwch wrthym pa gymorth fydd yn cael ei ddarparu gan aelodau eraill o staff a chan aelodau o'ch corff llywodraethu
    - Dywedwch wrthym os oes gennych unrhyw brofiad o gyflawni prosiectau tebyg. Beth wnaethoch chi ei ddysgu o'r rhain y gallwch ei ddefnyddio gyda'r prosiect hwn?
    - Dywedwch wrthym os ydych yn cyflogi staff newydd i gyflawni'r prosiect. Sut y byddan nhw'n cael eu dewis? Rhaid i unrhyw staff y prosiect, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol creadigol, sy'n cael cyflog o fwy na £5,000 gael eu

recriwtio drwy broses ddethol agored, oni bai bod rheswm artistig penodol a phwysig dros wneud yn wahanol. Dywedwch wrthym os ydych yn credu bod hyn yn wir.

- Dangos i ni sut y byddwch yn nodi, monitro a rheoli unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'ch prosiect:
    - Dywedwch wrthym pwy sy'n gyfrifol am reoli risg yn ystod oes eich prosiect

## Monitro a Gwerthuso eich Prosiect

### Yn eich cynnig dylech:

- Ddweud wrthym sut y byddwch yn monitro cynnydd yn erbyn nodau ac amcanion eich prosiect:
    - Sut y byddwch yn cadw'r prosiect ar y trywydd iawn ac yn gweithredu ar adborth?

- Dweud wrthym pa dystiolaeth y byddwch yn ei chasglu yn ystod oes y prosiect

- Dangos i ni sut  byddwch yn gwerthuso effaith eich prosiect:
    - Dywedwch wrthym sut y byddwch yn gwybod a yw eich prosiect wedi bod yn llwyddiannus
    - Dywedwch wrthym pa adborth y byddwch yn ei gasglu oddi wrth aelodau'r gynulleidfa, cyfranogwyr a buddiolwyr eraill
    - Dywedwch wrthym pwy fydd yn cynnal y gwerthusiad. Os ydych wedi dewis gweithio gyda rhywun o'r tu allan i'ch sefydliad ar y gwerthusiad, dywedwch wrthym pam

### Yn yr adran hon rydym yn edrych am:

- I ba raddau rydych wedi dangos i ni bod eich sefydliad yn cael ei reoli'n dda, yn hyfyw yn ariannol ac yn gallu cyflawni prosiect sy'n ychwanegol at yr hyn rydych yn ei wneud fel arfer

- I ba raddau rydych wedi dangos bod eich prosiect yn waith ychwanegol, wedi'i gynllunio'n dda a bod modd ei gyflawni

- I ba raddau rydych wedi ymgynghori â'ch buddiolwyr arfaethedig a sut maent wedi arwain y gwaith o gynllunio eich prosiect

- I ba raddau rydych wedi dangos i ni bod gennych y sgiliau a'r profiad i gyflawni a rheoli'r prosiect yn llwyddiannus

- I ba raddau rydych wedi ystyried sut byddwch yn monitro eich prosiect yn effeithiol a sut byddwch yn gwerthuso ei effaith ar ôl ei gwblhau

## Ariannu Prosiect Llwyddiannus

### Dywedwch wrthym am gyllideb y prosiect a'r arian arall sydd angen i chi ei godi er mwyn cyflawni eich prosiect

Mae'r adran hon yn mynd law yn llaw â chyllideb eich prosiect. Yma rydym eisiau i chi ddweud wrthym am eich dull o ariannu eich prosiect.

Byddwn yn awyddus i weld eich bod wedi mabwysiadu dull mentrus o ariannu eich prosiect ac wedi manteisio i'r eithaf ar y cyfraniadau ariannol o'ch cronfeydd eich hun ac oddi wrth bartneriaid ariannu eraill.

Rydym i gyd yn gweithredu mewn cyfnod ariannol anodd, felly rydym yn annog y sefydliadau rydym yn eu hariannu i ddatblygu modelau busnes mwy gwydn a chadarn sy'n gallu goroesi gyda llai o ddibyniaeth ar arian cyhoeddus. Byddwn yn disgwyl i chi ddangos lleihad o ran dibyniaeth ar ein harian a dangos bod eich sefydliad yn hyfyw yn ariannol heb ein harian ni. Mae hyn yn dangos i ni bod ein harian yn cefnogi gweithgarwch ychwanegol yn unig ac nid costau craidd.

Byddwn yn hefyd eisiau gweld bod eich prosiect yn cynrychioli gwerth da am arian, a bod y swm rydych yn gofyn amdano yn briodol i faint a math y prosiect rydych yn ei gynllunio.

**Atodiad: Cyllideb y Prosiect**

Rhaid i chi gyflwyno cyllideb prosiect gyda'ch ffurflen gais. Rhaid i hyn fod ar ein templed cyllideb prosiect, y gallwch ei lawrlwytho yma.

Mae cyflwyno cyllideb y prosiect yn orfodol gan ei bod yn rhan hanfodol o'r asesiad. Ni fyddwn yn gallu derbyn eich cais hebddi.

Byddwn yn rhoi rhagor o gyngor i chi ar sut i gwblhau'r templed cyllideb prosiect, yma.

### Yn eich cynnig dylech:

- Ddweud wrthym am unrhyw ragdybiaethau rydych wedi eu gwneud wrth lunio cyllideb eich prosiect:
    - Dangoswch y dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r rhagdybiaethau hyn

- Dweud wrthym am yr arian partneriaeth sydd ei angen arnoch ar gyfer eich prosiect:
    - Dangoswch i ni o ble y daw
    - Rhowch wybod i ni os yw wedi'i drefnu

- Os nad yw wedi'i sicrhau, dywedwch wrthym am eich dull gweithredu blaenorol a chyfredol i godi arian yn llwyddiannus a dangoswch i ni y bydd yn cael ei godi mewn pryd
- Os yw wedi'i sicrhau, dywedwch wrthym pa sefydliadau sydd wedi cadarnhau eu cyfraniad, a faint o arian maen nhw wedi ei gynnig tuag at eich prosiect
- Dywedwch wrthym os ydych yn bwriadu codi arian drwy werthu tocynnau neu enillion eraill. Dangoswch i ni bod symiau hyn yn realistig a bodd modd eu cyflawni
- Dywedwch wrthym os ydych wedi cynnwys cymorth mewn nwyddau fel rhan o'ch rhagamcanion incwm. Dangoswch i ni fod hyn wedi cael ei gadarnhau a bod ei werth wedi cael ei gadarnhau

- Os ydych yn bwriadu parhau â'ch prosiect y tu hwnt i'r cyfnod a gwmpesir gan ein harian, neu ei ailadrodd yn y dyfodol, dylech ddweud wrthym sut rydych yn bwriadu talu am hyn. (Ni ddylech gymryd yn ganiataol y byddwch yn cael rhagor o arian gennym).

**Yn yr adran hon rydym yn edrych am:**

- Gyllideb prosiect wedi'i mantoli, yn seiliedig ar ragdybiaethau realistig ac sy'n cynnwys y manylion rydym yn gofyn amdanynt

- Cadarnhad bod y swm rydych yn gofyn amdano yn briodol i faint y prosiect a'r math o brosiect rydych am ei gyflawni, a'i fod yn cynnig gwerth da am arian

- I ba raddau rydych yn dangos dulliau mentrus o godi arian a chynhyrchu incwm, a hanes llwyddiannus yn hynny o beth, a pha mor debygol yw hi y byddwch yn codi'r holl arian partneriaeth sy'n ofynnol ar gyfer eich prosiect, os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes

- I ba raddau rydych yn dangos lleihad o ran y ddibyniaeth ar ein harian ac yn dangos nad yw ein harian yn cael ei ddefnyddio i gefnogi unrhyw gostau craidd

## Sut i Lenwi Cyllideb Eich Prosiect

| |
|---|
| Cofiwch fod yn rhaid i chi ddefnyddio ein Templed Cyllideb Prosiect ar gyfer cyllideb eich prosiect, a gallwch ei lawrlwytho yma. Byddwch yn gallu lanlwytho eich cyllideb yn adran 6 o'r ffurflen gais. |

Mae cyllideb eich prosiect yn rhan allweddol o'ch cais. Mae ymgeiswyr yn aml yn gofyn i ni am gyngor ar gwblhau'r templed cyllideb prosiect. Dyma ein atebion i rai cwestiynau cyffredin:

## Pa wybodaeth sydd ei hangen mewn cyllideb prosiect?

Rhaid i gyllideb eich prosiect gynnwys yr incwm ar gyfer eich prosiect (mae hyn yn golygu yr holl arian sydd ei angen arnoch i dalu am eich prosiect), a'r gwariant ar gyfer eich prosiect (mae hyn yn golygu yr holl eitemau y byddwch yn talu amdanynt fel rhan o'ch prosiect). Rhaid i'ch cyllideb fantoli, sy'n golygu bod angen i'ch incwm fod yr un faint â'ch gwariant.

Dylai adran gwariant cyllideb eich prosiect gynnwys cyfanswm costau cymwys eich prosiect. Ni allwch newid cyllideb eich prosiect ar ôl i chi ei chyflwyno gyda'ch ffurflen gais. Felly mae'n bwysig **ar y cam hwn** eich bod yn meddwl am yr holl gostau prosiect gwahanol y byddwch yn eu talu.

Mae rhai costau na allwn eu talu, (rydym yn galw'r rhain yn gostau anghymwys), felly mae'n rhaid i chi hefyd wneud yn siŵr nad yw'r rhain yn cael eu cynnwys yng nghyllideb eich prosiect.

## Pa fath o gostau prosiect y gallwch eu talu?

Rydym yn galw costau'r prosiect y gallwn eu talu yn **gostau cymwys**. Bydd y costau cymwys y byddwch yn eu cynnwys yng nghyllideb eich prosiect yn dibynnu ar faint y prosiect rydych yn ei gynllunio a'r math o brosiect. Dyma rai enghreifftiau:

- Ffioedd ar gyfer artistiaid llawrydd a gweithwyr proffesiynol creadigol eraill a staff y prosiect
- Costau hyfforddi
- Costau cynhyrchu gan gynnwys deunyddiau a chostau mynd ar daith
- Costau ymgysylltu â'r cyhoedd megis gwaith allgymorth addysgol, gwaith datblygu cynulleidfaoedd, costau marchnata a chostau cyfieithu
- Costau ar gyfer gwneud eich prosiect yn fwy cynhwysol a hygyrch fel perfformiadau â dehonglydd iaith arwyddion
- Costau gwerthuso

Rydym yn gwybod bod angen i brosiectau gael eu rheoli'n dda, felly byddwn yn ystyried hyd at 20% o gyfanswm costau cymwys y prosiect ar gyfer gweinyddu a gorbenion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni'r prosiect ac sy'n gostau ychwanegol. Ni fyddwn yn ystyried mwy nag 20% gan ein bod am weld cymaint o arian â phosibl yn cael ei wario ar weithgarwch artistig.

### Sut rydym yn cyfrifo faint i'w dalu i'r artistiaid a gweithwyr proffesiynol creadigol eraill sy'n gweithio gyda ni ar ein prosiect?

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau taliadau priodol a theg i bob gweithiwr proffesiynol creadigol i gydnabod ei statws, ei sgiliau a'i brofiad proffesiynol. Fel isafswm, bydd angen i chi sicrhau bod cyfraddau tâl safonol y diwydiant yn cael eu defnyddio. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yma.

### A allaf gynnwys y gost o brynu cyfarpar yng nghyllideb ein prosiect?

Gellir defnyddio hyd at £2,000 o'ch grant fel cyfraniad at elfen gyfalaf prosiect penodol, megis prynu darn o gyfarpar. Bydd angen i chi ddweud wrthym yng nghynnig eich prosiect sut y byddwch yn defnyddio'r cyfarpar hwn yn ystod **ac** ar ôl eich prosiect.

### A fyddwch yn cyfrannu tuag at gost gwefannau?

Byddwn yn ystyried rhoi hyd at £1,000 tuag at gostau datblygu a chynnal gwefan, os bydd yn cael ei defnyddio’n bennaf i farchnata a hyrwyddo eich prosiect. Os bydd datblygu gwefan yn ganolog i weledigaeth greadigol eich prosiect ac os byddwch yn ei defnyddio fel llwyfan ar gyfer eich ymarfer artistig, yna byddwn yn ystyried mwy na £1,000 tuag at gostau rhesymol datblygu a chynnal gwefan.

Bydd angen i chi ddangos i ni sut y byddwch yn defnyddio'r wefan yn ystod ac ar ei ôl eich prosiect.

### Pa gostau prosiect nad ydych yn gallu eu talu?

Rydym yn galw'r rhain yn gostau anghymwys. Ni allwn roi rhestr bendant i chi gan y byddwn yn ystyried cyllideb eich prosiect yn fanwl pan fyddwn yn asesu eich cais. Ond dyma rai enghreifftiau:

- Ffioedd cyfrifyddu ac archwilio
- Gorbenion parhaus, er enghraifft, rhent a chyfleustodau
- Costau am ddefnyddio ystafelloedd, cyfleusterau neu offer eich hun
- Ffioedd rydych yn eu talu am gyngor neu help i gwblhau eich cais
- Bwyd, lluniaeth neu gostau lletygarwch
- Gwobrau
- Gweithgareddau codi arian
- Costau lansio
- Crysau-t hyrwyddo a nwyddau eraill

- Rhoddion fel blodau
- Tân gwyllt ac eitemau pyrotechnegol eraill

Ni allwn ystyried costau **ôl-weithredol**. Mae hyn yn golygu gweithgarwch sydd eisoes wedi digwydd, neu unrhyw gostau rydych wedi eu talu neu wedi cytuno i'w talu (drwy lofnodi contract neu gyflwyno archeb er enghraifft), cyn i ni wneud penderfyniad a chyn i chi dderbyn ein cynnig grant.

### Faint o arian y gallwn wneud cais amdano?

Yr uchafswm y gallwch wneud cais amdano yw £30,000. Mewn amgylchiadau prin efallai y byddwn yn gwneud eithriadau. Gallwch ddarllen rhagor am yr eithriadau hyn yn ein dogfen Cychwyn Arni.

Os hyrwyddo neu gyflwyno canlyniadau iechyd, addysgol, cymdeithasol neu ganlyniadau nad ydynt yn gysylltiedig â'r celfyddydau addysgol yw prif nod prosiect, gallwch wneud cais am hyd at 50% o gyfanswm costau cymwys eich prosiect.

Gall awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau diwylliant a hamdden sy'n darparu gwasanaethau yn lle awdurdodau lleol ymgeisio am hyd at 60% o gyfanswm costau cymwys y prosiect.

Gall pob sefydliad arall wneud cais am uchafswm o 75% o gyfanswm costau cymwys eich prosiect.

### Beth rydych yn ei olygu wrth Arian Partneriaeth?

Mae ein harian yn cael ei gynnig fel canran o gyfanswm costau cymwys y prosiect. Bydd angen i chi ddod o hyd i'r gweddill sydd ei angen arnoch o'ch arian eich hun neu o ffynonellau eraill, a dyma'r hyn a elwir yn arian partneriaeth. (Gall hefyd gael ei alw'n arian cyfatebol).

Mae arian partneriaeth yn un o ofynion y Loteri Genedlaethol, ond rydym yn teimlo'n gryf ei fod hefyd yn helpu i ddangos y cryfder a photensial eich syniad am brosiect. Mae hyn yn dangos i ni bod ymrwymiad i'ch prosiect. Mae hefyd yn dangos i ni bod rhanddeiliaid eraill yn cytuno bod eich prosiect yn diwallu angen, y bydd iddo fudd cyhoeddus, a'u bod yn barod i fuddsoddi arian ynddo. Mae hefyd yn golygu y gallant helpu i rannu rhywfaint o'r risg ariannol.

Bydd angen i o leiaf 25% o incwm eich prosiect ddod o ffynhonnell nad yw'n gysylltiedig â Chyngor Celfyddydau Cymru. Cofiwch mai'r ganran sylfaenol yw hon a byddwn yn disgwyl i chi sicrhau'r cyfraniadau mwyaf posibl at eich prosiect o'ch cronfeydd eich hun, o incwm a enillir a chan bartneriaid ariannu eraill.

Rydym hefyd yn awyddus i gefnogi prosiectau sy'n cael eu hariannu ar y cyd, yn hytrach na'r rhai sy'n dibynnu arnom i fod yn brif ariannwr neu'u unig ariannwr. Y mwyaf o arian

partneriaeth y gallwch ei sicrhau, y cryfaf fydd eich prosiect. Mae hefyd yn ein galluogi i ledaenu ein harian yn ehangach, a'n helpu i gefnogi rhagor o brosiectau.

Dyma rai enghreifftiau o ffynonellau arian partneriaeth:

- Cronfeydd eich sefydliad ei hun, ond mae'n rhaid i'r rhain ddod o ffynhonnell nad yw'n gysylltiedig â'r Loteri na Chyngor Celfyddydau Cymru
- Cyfraniadau arian parod gan bartneriaid eraill yn y prosiect (megis ffioedd)
- Incwm a enillwyd (megis drwy werthu tocynnau,gwerthiannau mewn arddangosfa neu incwm Noson Allan)
- Grantiau gan sefydliadau eraill (rhaid i o leiaf 10% ddod o ffynonellau nad ydynt yn gysylltiedig â'r Loteri)

**Beth yw cymorth mewn nwyddau?**

Gellir cynnwys cymorth mewn nwyddau, (a elwir yn gyfraniadau mewn nwyddau weithiau), o hyd at 10% o gyfanswm costau cymwys y prosiect fel arian partneriaeth. Dyma rai enghreifftiau o gymorth mewn nwyddau:

- lle i ymarfer neu le mewn stiwdio
- amser gwirfoddolwyr
- benthyca offer

Ni all cymorth mewn nwyddau ddod o'ch adnoddau chi eich hun. Nid yw gostyngiadau cyflenwyr yn gymwys. **Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig o'r holl gymorth mewn nwyddau gan gynnwys ei werth.** Gellir lanlwytho'r rhain yn adran 6 o'r ffurflen gais

## Defnyddio'r Templed Cyllideb Prosiect

Rydym yn defnyddio templed cyllideb i'ch helpu i gyflwyno eich gwybodaeth ariannol mewn ffordd glir a strwythuredig. Mae hyn hefyd yn ein helpu i gymharu cyllidebau prosiect ceisiadau gwahanol mewn ffordd gyson.

Bydd y templed yn eich tywys drwy'r broses o gwblhau cyllideb eich prosiect. Mae'n cynnwys pedair tudalen (neu dabiau):

- Tudalen grynodeb sy'n gwirio bod eich cyllideb yn mantoli
- Tudalen incwm

- Tudalen gwariant
- Rhestr wirio

Bydd y templed yn cyfrifo is-gyfansymiau ar eich cyfer yn awtomatig, felly gwnewch yn siŵr bod eich cyllideb yn mantoli a gwiriwch eich bod yn gwneud cais am swm sydd o fewn y ganran uchaf y gallwn ei hariannu. Bydd hefyd yn dangos negeseuon i gynnig cyngor, gofyn cwestiynau neu i'ch atgoffa. Gallwn dderbyn cyllideb gyda negeseuon gwyrdd neu felyn, ond nid un gyda negeseuon coch. Os gwelwch neges goch bydd angen i chi adolygu eich ffigurau cyn y gallwch lanlwytho eich cyllideb.

Gallwch lenwi'r blychau llwyd ar y daenlen gyda thestun a ffigurau, ond ni allwch newid y blychau gwyn. Dylai eich ffigurau gael eu talgrynnu i bunnoedd cyflawn (£). Bydd rhai o'r blychau yn gofyn i chi ddewis opsiwn o gwymplen.

Os na fydd y templed yn rhoi digon o le i chi ddweud wrthym am y rhagdybiaethau a wnaed gennych wrth bennu eich ffigurau, neu os hoffech roi rhagor o wybodaeth am eich cyllideb gallwch lanlwytho hyn fel Gwybodaeth **arall** yn adran 6 eich ffurflen gais.

## Cwblhau cyllideb eich prosiect

### Tudalen 1: Mantolen

Rhowch enw eich sefydliad a nodwch a ydych yn Sefydliad Refeniw. Dywedwch wrthym beth yw teitl eich prosiect a'r swm rydych yn gwneud cais amdano (mewn £ llawn). Gwnewch yn siŵr bod y swm yn cyfateb i'r ffigur rydych wedi ei roi ar eich ffurflen gais. Bydd y ffigurau eraill yn diweddaru yn awtomatig wrth i chi lenwi gweddill y gyllideb.

### Tudalen 2: Incwm

Dywedwch wrthym am yr holl incwm y byddwch yn ei ddefnyddio i dalu am eich prosiect, o dan y penawdau a roddir. Os bydd angen rhagor o le arnoch, defnyddiwch ran isaf y dudalen, gan wneud yn siŵr eich bod yn dewis y pennawd perthnasol o'r gwymplen.

### Cais am grant Cyngor Celfyddydau Cymru

- Mae'r ffigur hwn eisoes wedi'i lenwi ar eich rhan

### Eich cronfeydd chi eich hun

- Rhestrwch unrhyw gyfraniad ariannol yr ydych yn gwybod y byddwch yn eu gwneud tuag at y prosiect
- Os ydych yn rhan o'n Portffolio Celfyddydol Cymru ni allwch ddefnyddio unrhyw ran o'ch grant refeniw fel cyllid partneriaeth ar gyfer eich prosiect

### Incwm a enillir

- Rhestrwch unrhyw incwm rydych yn disgwyl ei ennill o weithgarwch eich prosiect, er enghraifft, drwy werthu tocynnau, ffioedd gweithdai neu hyfforddiant neu werthiannau catalogau/rhaglenni. Dylech fod yn realistig am y swm rydych yn debygol o'i ennill. Dylech ddweud wrthym am unrhyw ragdybiaethau rydych wedi eu gwneud i gyrraedd y ffigurau hyn.

> Dyma enghraifft o ba mor fanwl yw'r wybodaeth sydd ei hangen arnom: pum perfformiad gyda chynulleidfa o 210 ym mhob un yn talu £5 am bob tocyn = £5,250.

- Os codir TAW ar eich gwerthiannau tocynnau neu bris mynediad, ni ddylech ei gynnwys yn yr incwm a enillir

### Arian awdurdodau lleol

- Rhestrwch yr holl grantiau gan awdurdodau lleol. Rhowch enw pob awdurdod lleol, y swm y maent yn ei roi i chi ac a yw wedi cael ei gadarnhau yn ysgrifenedig. Os ydych yn aros i glywed, rhowch wybod i ni pryd rydych yn disgwyl penderfyniad.

### Arian cyhoeddus arall

- Rhestrwch yr holl grantiau gan unrhyw sefydliadau cyhoeddus eraill, megis Llywodraeth Cymru neu'r Undeb Ewropeaidd. Unwaith eto, rhowch enw pob ariannwr, y swm y mae'n ei roi ac a yw wedi cael ei gadarnhau yn ysgrifenedig. Os ydych yn aros i glywed, rhowch wybod i ni pryd rydych yn disgwyl penderfyniad.

### Cymorth mewn nwyddau

- Amcangyfrifwch gost neu werth unrhyw eitemau neu wasanaethau a roddir i chi gan sefydliadau eraill y byddai'n rhaid i chi dalu amdanynt fel arall. Mae'r rhain yn cyfrif fel incwm ar gyfer eich prosiect, (hyd at uchafswm o 10% o gyfanswm costau cymwys y prosiect), ond ni allant ddod o'ch adnoddau eich hun ac ni allant fod yn ostyngiadau cyflenwyr'.

> Dyma enghraifft o ba mor fanwl yw'r wybodaeth sydd ei hangen arnom: llogi neuadd am 6 diwrnod ar gost o £50 y dydd = gwerth mewn nwyddau o £300.

- Rhestrwch bob darparwr cymorth mewn da, gwerth y cymorth a nodwch a yw wedi cael ei gadarnhau yn ysgrifenedig. (Mae llythyrau o gefnogaeth gan bob darparwr yn ffordd dda o ddangos hyn a gellir eu lanlwytho yn adran 6 o'r ffurflen gais).

Gallwch ddarllen rhagor am gymorth mewn nwyddau yn yr adran cwestiynau cyffredin am gyllideb prosiect, uchod.

### Ffynonellau incwm ychwanegol

- Dywedwch wrthym am incwm o unrhyw ffynhonnell arall. Gall hyn gynnwys:
  - nawdd
  - rhoddion
  - grantiau gan ymddiriedolaethau a sefydliadau

Rhowch enw pob ffynhonnell, y swm y mae'n ei roi i chi, ac os yn bosibl a yw wedi'i gadarnhau yn ysgrifenedig. Os ydych yn aros i glywed, rhowch wybod i ni pryd rydych yn disgwyl penderfyniad.
Dylech gyflwyno unrhyw lythyrau perthnasol am eich arian partneriaeth gyda'ch ffurflen gais. Gallwch ddarllen mwy am sut i lanlwytho dogfennau yn adran 6.

> Pan fyddwch wedi gorffen, cliciwch Gorffen i fynd yn ôl i'r dudalen Mantolen, lle y bydd cyfanswm eich incwm i'w weld nawr.

### Tudalen 3 - Gwariant

Dywedwch wrthym am yr holl eitem y byddwch yn talu amdanynt fel rhan o'ch prosiect, o dan y penawdau a roddir.

Rhaid i holl gostau eich prosiect fod yn gymwys. Gallwch ddarllen rhagor am gostau cymwys yn yr adran cwestiynau cyffredin am gyllideb prosiect uchod.

Rhaid i chi ddarparu dadansoddiad o unrhyw gostau sy'n fwy na 5% o gyfanswm costau’r prosiect cymwys. Bydd y templed yn eich helpu i nodi pa gostau y mae angen i chi roi dadansoddiad ohonynt.
Os bydd angen rhagor o le arnoch, defnyddiwch ran isaf y dudalen, gan wneud yn siŵr eich bod yn dewis y pennawd perthnasol o'r gwymplen.

### Nodyn am Dreth Ar Werth (TAW)

Os ydych chi wedi cofrestru ar gyfer TAW, ni ddylai eich ffigurau gwariant gynnwys TAW y gallwch ei hawlio yn ôl (a elwir yn aml yn TAW y gellir ei adennill).

Os nad ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW dylai eich costau gynnwys TAW. Dylai unrhyw TAW yr ydych yn disgwyl ei dalu ond na allwch ei hawlio'n ôl (TAW na ellir ei adennill) gael ei gynnwys fel categori ar wahân o wariant a dylech esbonio sut rydych wedi cyfrifo'r ffigur hwn.

Dyma enghraifft o'r manylion rydym yn disgwyl i chi eu darparu ar dudalen gwariant cyllideb eich prosiect:

| Costau gweithgarwch artistig | |
|---|---|
| 3 actor @ £350 yr wythnos am 10 wythnos, 1 rheolwr llwyfan @ £400 yr wythnos am 10 wythnos | £14,500 |
| Cynhaliaeth ar gyfer 4 aelod o staff @ £50 y dydd x 20 diwrnod | £4,000 |
| Llogi fan @ £60 y dydd x 20 diwrnod | £1,200 |
| Llogi gofod ymarfer yn Theatr ABC, 10 sesiwn @ £150 y sesiwn | £1,500 |

### Costau gweithgarwch artistig

- Rhestrwch ffioedd a chyflogau yr holl artistiaid a'r gweithwyr proffesiynol creadigol eraill a fydd yn gweithio ar eich prosiect, er enghraifft actorion, cerddorion, cyfansoddwyr, rheolwyr llwyfan, coreograffwyr, cynhyrchwyr, curaduron, hyfforddwyr ac arweinwyr gweithdai. Fel isafswm, bydd angen i chi sicrhau bod cyfraddau tâl safonol y diwydiant yn cael eu defnyddio. Gallwch gael cyngor am hyn gan sefydliadau fel Equity, Undeb y Cerddorion, UK Theatre, a'r Independent Theatre Council. Ar gyfer artistiaid gweledol, a-n, mae adran ar wefan yr Artists Information Company a elwir yn Fanc Gwybodaeth sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer ymarfer y celfyddydau gweledol, gan gynnwys canllawiau ar gyfraddau cyflog.

- Rhestrwch gostau'r ymarferion, amser stiwdio, digwyddiadau a chynyrchiadau, ynghyd ag unrhyw ddeunyddiau sydd eu hangen arnoch

- Dylech gynnwys yr holl gostau sy'n cefnogi eich gweithgareddau artistig yn uniongyrchol, er enghraifft teithio, cludiant, llety a chynhaliaeth ddyddiol (a elwir weithiau'n lwfansau beunyddiol)

### Costau marchnata a datblygu cynulleidfaoedd

- Rhestrwch y costau marchnata a hyrwyddo sy'n cefnogi eich gweithgareddau artistig yn uniongyrchol ac yn eich galluogi i gyrraedd a denu cynulleidfaoedd a chyfranogwyr, er enghraifft marchnata llawrydd, ffioedd y wasg a chysylltiadau cyhoeddus, dadansoddi data, rhestrau postio, costau postio, cyfieithu, costau dylunio ac argraffu, cyfryngau cymdeithasol a chostau post electronig

### Costau monitro a gwerthuso

- Rhestrwch y costau casglu tystiolaeth cyn, yn ystod ac ar ôl eich prosiect, er enghraifft arolygon cyfranogwyr neu holiaduron cynulleidfaoedd ar ôl digwyddiad, tystlythyrau, ffurflenni adborth neu ymatebion fideo

- Rhestrwch gostau unrhyw fesurau sicrwydd ansawdd yr ydych yn eu rhoi ar waith, er enghraifft, adolygiadau gan gymheiriaid neu fewnbwn gan ffrind beirniadol

- Rhestrwch gostau darparu tystiolaeth o effaith eich prosiect, er enghraifft ffioedd ar gyfer gwerthuswyr allanol

### Prynu offer

- Gall ein grant gynnwys hyd at £2,000 fel cyfraniad tuag at elfen gyfalaf prosiect penodol, megis prynu darn o offer y bydd ei angen arnoch er mwyn cyflawni'r prosiect.

- Ar gyfer unrhyw eitem unigol sy'n costio mwy na £500 dylech gyflwyno tri dyfynbris ysgrifenedig gan gyflenwyr ar wahân ar gyfer offer union debyg neu debyg. Dylai'r dyfynbris y byddwch yn dewis ei gynnwys yng nghyllideb eich prosiect fod yn bris a fydd yn cynnig y gwerth gorau

### Costau gwneud eich gweithgarwch yn fwy hygyrch

- Rydym yn disgwyl i chi i wneud eich gweithgarwch yn hygyrch i bobl anabl. Mae llawer o bethau y gallwch eu gwneud i wneud eich prosiect yn fwy hygyrch nad ydynt mewn gwirionedd yn costio dim, ond dylech gynllunio ar gyfer unrhyw gostau mynediad angenrheidiol a'u cynnwys yma

- Os yw eich sefydliad yn sefydliad anabledd (sef bod mwy na 51% o'ch bwrdd neu'ch pwyllgor rheoli a'ch uwch staff yn bobl anabl), gallwch wneud cais am gyllid tuag at gostau mynediad a fydd yn gysylltiedig â chyflawni eich prosiect. Bydd y costau hyn yn cael eu hystyried yn ychwanegol at gostau'r prosiect artistig a byddwn yn ystyried caniatáu i'ch cais fynd y tu hwnt i'r uchafswm. Dylech gysylltu â ni i drafod hyn cyn cyflwyno eich cais.

### Gwariant Blynyddol

- Rhestrwch unrhyw gostau prosiect eraill nad ydynt yn berthnasol i'r penawdau eraill a rhowch fanylion

### Costau rhedeg y prosiect (gweinyddu a gorbenion)

- Gallwn ystyried costau rhedeg y prosiect o ran gweinyddu a gorbenion, hyd at uchafswm o 20% o gyfanswm costau cymwys y prosiect.

- Dim ond costau rhedeg prosiectau nad ydynt yn cael eu talu gan arian arall ac sydd yn amlwg yn gostau ychwanegol y byddwn yn ystyried eu talu. Mae'n rhaid i chi ddangos i ni y bydd y costau'n codi dros gyfnod penodol o amser a'u bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'ch prosiect. Byddwn yn ystyried cyfrannu tuag at:
    - Gostau gweinyddu'r prosiect
    - Taliadau i staff ychwanegol
    - Costau ffôn, postio ac yswiriant sy'n ymwneud yn benodol â'r prosiect

- Os **nad** ydych yn Sefydliad Refeniw gallwch wneud cais am gyfraniad rhesymol tuag at eich costau rhedeg parhaus i'ch galluogi i gyflawni eich prosiect. Mae'n rhaid i'r ffigur a ddefnyddiwch ymwneud yn uniongyrchol â faint o amser a dreuliwyd ar y gweithgarwch rydych yn gofyn i ni ei ariannu, felly esboniwch sut yr ydych wedi cyfrifo hyn. Fodd bynnag, dylech geisio cadw'r ganran hon mor isel â phosibl, er mwyn i fwy o'n cyllid gael ei wario ar weithgarwch artistig

### Gwerth cymorth mewn nwyddau

- Os ydych wedi llenwi'r adran Cymorth mewn Nwyddau ar dudalen Incwm cyllideb eich prosiect, yna bydd y templed yn dangos yr un swm i chi yma.

Gallwch ddarllen rhagor am gymorth mewn nwyddau yn yr adran cwestiynau cyffredin am gyllideb prosiect, uchod.

### Cronfa wrth gefn

- Cronfa wrth gefn yw swm sydd wedi'i neilltuo i dalu costau annisgwyl.

- Dylech gynnwys hyd at 5% o gyfanswm costau cymwys eich prosiect fel cronfa wrth gefn.

- Bydd y templed yn dweud wrthych os bydd eich ffigur yn rhy uchel

| |
|---|
| Pan fyddwch wedi gorffen, cliciwch Gorffen i fynd yn ôl i'r dudalen Mantolen, lle y bydd cyfanswm eich incwm i'w weld nawr. |

### Tudalen 4 - Rhestr wirio

Gallwch weithio drwy'r rhestr wirio hon i wneud yn siŵr eich bod wedi gwneud popeth sydd angen i chi ei wneud cyn arbed a lanlwytho cyllideb eich prosiect fel rhan o'ch cais.

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

# Adran 3: Manylion y Prosiect

Yn yr adran hon rydym yn gofyn i chi roi ffeithiau a ffigurau i ni am eich prosiect. Mae'n rhan bwysig o'ch cais gan ei fod yn dweud wrthym pa dargedau rydych wedi'u gosod ar gyfer eich prosiect, megis nifer y mynychwyr neu gyfranogwyr a faint o weithgarwch y byddwch yn ymgymryd ag ef. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i farnu a yw maint y prosiect yn briodol ac a oes gennych y sgiliau, y profiad, yr adnoddau a'r gallu i gyflawni'r prosiect yn llwyddiannus.

Rydym hefyd eisiau gwybod am y ffurf(iau) ar gelfyddyd y byddwch yn gweithio gyda nhw, ac a fyddwch yn targedu unrhyw grwpiau penodol o bobl.

Rydym hefyd yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro'r hyn sy'n digwydd ledled Cymru ac i adrodd ar effaith ein harian.

## Dyddiadau'r Prosiect

Dywedwch wrthym beth yw dyddiadau dechrau a gorffen eich prosiect. Dyddiad dechrau eich prosiect yw'r dyddiad pan fyddwch yn disgwyl mynd i gostau. Ni allwn ariannu unrhyw weithgarwch sydd eisoes wedi digwydd.

Mae angen i chi wneud yn siŵr bod dyddiad dechrau eich prosiect yn caniatáu digon o amser i ni asesu eich cais a chadarnhau ein penderfyniad, ac amser i chi gwblhau eich gwaith cynllunio, paratoi, codi arian, marchnata a datblygu cynulleidfaoedd.

- Ar gyfer ceisiadau am **Grantiau Bychain** (£250 - £5,000) byddwn yn cymryd hyd at chwe wythnos waith i'ch hysbysu am ein penderfyniad. Fel arfer byddwch yn gallu dechrau eich prosiect ar ôl i ni dderbyn ffurflen wedi'i llofnodi yn cadarnhau eich bod yn derbyn y grant. Felly, mae angen i chi ganiatáu o leiaf chwe wythnos waith rhwng y dyddiad y byddwch yn cyflwyno eich cais a'r dyddiad rydych chi eisiau dechrau eich prosiect. Ni fyddwn yn derbyn eich cais os bydd dyddiad dechrau eich prosiect yn rhy gynnar.

- Ar gyfer ceisiadau am **Grant Mawrion** (£5,001 ac uwch) byddwn yn cymryd hyd at naw wythnos waith i'ch hysbysu am ein penderfyniad. Fel arfer byddwch yn gallu dechrau eich prosiect ar ôl i ni dderbyn ffurflen wedi'i llofnodi yn cadarnhau eich bod yn derbyn y grant ac ar ôl i chi fodloni unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â'ch grant. Felly, mae angen i chi ganiatáu o leiaf naw wythnos waith rhwng y dyddiad y byddwch yn cyflwyno eich cais a'r dyddiad rydych chi eisiau dechrau eich prosiect. Ni fyddwn yn derbyn eich cais os bydd dyddiad dechrau eich prosiect yn rhy gynnar.

Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym beth yw'r dyddiadau hyn, oherwydd os byddwn yn dyfarnu grant i chi, bydd y taliadau a wnawn a'r adroddiadau y byddwn yn gofyn amdanynt yn gysylltiedig â dyddiadau dechrau a gorffen eich prosiect. Os bydd angen i chi newid dyddiad dechrau neu ddyddiad gorffen eich prosiect, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl i ddweud pam, er mwyn i ni allu cytuno i'r newidiadau hyn a diweddaru ein cofnodion.

## Cyfanswm cost y prosiect a'r swm y gwnaed cais amdano

Dylech wneud cais am y swm lleiaf o arian sydd ei angen arnoch i gyflawni eich prosiect. Os hyrwyddo neu gyflwyno canlyniadau iechyd, addysgol, cymdeithasol neu ganlyniadau nad ydynt yn gysylltiedig â'r  celfyddydau addysgol yw prif nod prosiect, gallwch wneud cais am hyd at 50% o gyfanswm costau cymwys eich prosiect.

Gall awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau diwylliant a hamdden sy'n darparu gwasanaethau yn lle awdurdodau lleol ymgeisio am hyd at 60% o gyfanswm costau cymwys y prosiect.

Gall pob sefydliad arall wneud cais am uchafswm o 75% o gyfanswm costau cymwys eich prosiect. Rhaid i chi sicrhau nad yw'r swm rydych yn gwneud cais amdano yn fwy na hyn.

Dylech hefyd wneud yn siŵr bod y ffigur a nodwch yma yr un faint â'r swm rydych yn gwneud cais amdano ar gyllideb eich prosiect.

## Iaith

Defnyddiwch y gwymplen i ddweud wrthym ym mha iaith/ieithoedd y byddwch yn cyflwyno eich prosiect. Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym gan ein bod yn aml yn cael cais i adrodd ar hyn.

## Ffurfiau ar Gelfyddyd

Gofynnir yn aml i ni pa ganrannau o'n harian sy'n cael eu gwario ar ba ffurf ar gelfyddyd, felly mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym mor fanwl gywir â phosibl pa gyfran o weithgareddau eich prosiect sy'n ymwneud â phob ffurf ar gelfyddyd.

## Targedau Arfaethedig

Dywedwch wrthym faint o arddangosfeydd, cynyrchiadau, gweithdai, digwyddiadau neu sesiynau hyfforddi rydych yn bwriadu eu cyflwyno fel rhan o'ch prosiect. Bydd angen i chi hefyd ddweud wrthym gyfanswm nifer y mynychiadau rydych yn eu disgwyl, boed hynny fel aelodau o'r gynulleidfa, ymwelwyr arddangosfa, cyfranogwyr neu hyfforddeion. Mae'n bwysig eich bod yn cynnwys yr holl bobl a allai ymgysylltu â'ch prosiect, felly mae lle i ddweud wrthym am fuddiolwyr eraill hefyd.

Os ydych yn bwriadu cyflwyno ystod o weithgareddau, gallai rhai o'r ffigurau hyn fod yn gyfartaledd ar draws y prosiect cyfan.

## Mathau o Weithgarwch

Rydym yn aml yn cael ein holi am y math o weithgarwch rydym yn ei ariannu. Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol.

## Cydraddoldebau

Mae sicrhau bod y trawstoriad ehangaf posibl o bobl yn gallu mwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau yn sylfaenol i'n gwaith. Fel corff cyhoeddus mae gennym gyfrifoldeb diwylliannol, moesol a chyfreithiol i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant. Mae'n gyfrifoldeb yr ydym yn rhoi pwys mawr arno.

Rydyn ni eisiau sicrhau ein bod ni a'r sefydliadau rydym yn eu hariannu yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o amrywiaeth a chydraddoldeb. Rydym am weld mynediad mwy cyfartal i'r celfyddydau boed fel cynulleidfaoedd neu gyfranogwyr, felly rydym eisiau i'n harian weithio'n galetach i gyrraedd y bobl hynny sy'n cael eu heffeithio gan anghydraddoldeb. Rydym hefyd yn awyddus i ddathlu'r rôl y gall y celfyddydau ei chwarae wrth hyrwyddo cydraddoldeb, gan gynnwys meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n cael eu heffeithio gan anghydraddoldeb a'r rhai nad ydynt yn cael eu heffeithio ganddo.

Er gwaethaf y gwaith da a wneir gan lawer o artistiaid a sefydliadau celfyddydol, rydym yn gwybod bod rhai pobl yn wynebu rhwystrau rhag mwynhau'r celfyddydau. Dyma un o'r rhesymau pam rydym yn cymryd Cydraddoldeb o ddifrif.

Fel corff cyhoeddus mae'n ofynnol i ni yn ôl y gyfraith gasglu a monitro gwybodaeth am bwy sy'n elwa yn sgil ein harian. Mae hyn yn ein helpu i adrodd ar ein cynnydd wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y celfyddydau ac yn ein helpu i dargedu arian lle mae ei angen fwyaf.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn sôn am bobl sydd â "nodweddion gwarchodedig" ac rydym yn casglu gwybodaeth am brosiectau celfyddydol sy'n targedu ac yn cyflwyno gweithgareddau yn benodol ar gyfer y grwpiau hynny o bobl. Ar hyn o bryd rydym yn casglu gwybodaeth am y grwpiau gan ddefnyddio rhestr Deddf Cydraddoldeb 2010. Felly, rydym yn gofyn i chi ddweud wrthym a yw eich gweithgareddau ar gyfer pobl o grŵp oedran penodol, pobl anabl, pobl o hil, crefydd neu gred benodol, a yw'r gweithgarwch ar gyfer dynion yn unig, menywod yn unig neu'n canolbwyntio ar gyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, neu feichiogrwydd a mamolaeth.

[Yn ôl i'r tudalen Cynnwys]

## Adran 4: Lleoliad y Prosiect

Yn yr adran hon rydym yn gofyn i chi ddweud wrthym ble y bydd gweithgarwch eich prosiect yn cael ei gynnal.

Gofynnir yn aml i ni pa rannau o Gymru sy'n elwa ar ein harian, felly mae'r wybodaeth a ddarperir gennych yn yr adran hon yn bwysig iawn.

Mae'n ein helpu i sicrhau bod ein cyllid yn cyrraedd pob rhan o Gymru, ac yn ein helpu i fonitro sut rydym yn galluogi mynediad i'r celfyddydau ar hyd a lled y wlad, (gan gynnwys ardaloedd o amddifadedd ac angen a nodwyd gan Lywodraeth Cymru).

Os nad oes gennych y wybodaeth y mae ei hangen arnoch i gwblhau'r adran hon, gallwch ddefnyddio'r offeryn chwilio codau post ar ein gwefan. Ar gyfer pob cod post y byddwch yn ei nodi, bydd yn dweud wrthych beth yw enw ward y cyngor, yr awdurdod lleol a rhanbarth y Llywodraeth.

Dywedwch wrthym beth yw'r cod post ac enw ward pob canolfan neu leoliad lle y bydd eich prosiect yn digwydd. Defnyddiwch y blychau a ddarperir i ddweud wrthym am hyd at ddeg prif leoliad. Gallwch restru unrhyw leoliadau ychwanegol yn adran "budd cyhoeddus" eich cynnig, neu gallwch lanlwytho'r wybodaeth hon fel atodiad, drwy ddewis "Arall" o'r gwymplen sy'n agor yn adran chwech o'r ffurflen gais. Gallwch ddarllen mwy am atodiadau drwy glicio yma.

### Ardal Awdurdod Lleol a Wasanaethir

Dywedwch wrthym pa gyfran o'ch gweithgarwch sy'n digwydd ym mhob ardal awdurdod lleol drwy dicio'r blychau perthnasol a rhoi canran wedi'i thalgrynnu i fyny. Mae blwch ar gyfer gweithgarwch y tu allan i Gymru hefyd.

### Rhanbarth y Llywodraeth a Wasanaethir

Dywedwch wrthym pa gyfran o'ch gweithgarwch sy'n digwydd ym mhob rhanbarth o'r Llywodraeth drwy dicio'r blychau perthnasol a rhoi canran wedi'i thalgrynnu i fyny. Mae blwch ar gyfer gweithgarwch y tu allan i Gymru hefyd.

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

# Adran 5: Datganiad

Yn yr adran hon o'r ffurflen gais rydym yn gofyn i chi ddarllen rhywfaint o wybodaeth bwysig am ein cyfrifoldebau o ran Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth.

Mae'n bwysig eich bod yn deall sut y bydd y wybodaeth a gyflwynwch yn cael ei defnyddio a'i storio gennym. Ac mae angen i chi wybod beth i'w wneud os byddwch yn credu bod unrhyw ran o'ch gwybodaeth yn fasnachol sensitif neu'n gyfrinachol.

Rydym yn gofyn i chi wedyn gadarnhau nifer o ddatganiadau. A thrwy roi tic yn y blwch byddwch yn llofnodi'r ffurflen gais yn electronig ar ran eich sefydliad.

[Yn ôl i'r tudalen Cynnwys](#)

# Adran 6: Atodiadau

Gallwch lwytho eich dogfennau ategol yn yr adran hon. Mae ein system ar-lein yn galw'r rhain yn atodiadau.

Yn adran dau: *eich cynnig* , fe wnaethom restru'r atodiadau y mae'n rhaid i chi eu cyflwyno gyda'ch ffurflen gais. Dyma nodyn i'ch atgoffa:

- Eich dogfen lywodraethol (heblaw eich bod yn gorff statudol)
- Prawf bod gennych gyfrif banc yn enw eich sefydliad sydd angen dau berson o leiaf i awdurdodi trafodion. (Ni allwn dderbyn cyfrifon cymdeithas adeiladu) Nid oes rhaid i gorff statudol ddarparu'r prawf yma.
- Cyllideb eich prosiect, y mae'n rhaid ei rhoi ar dempled cyllideb prosiect, y gallwch ei lawrlwytho yma
- Eich Cynllun Marchnata
- O leiaf ddau lythyr yn cefnogi eich prosiect

Cofiwch fod y rhain yn orfodol. Maent yn rhan hanfodol o'n hasesiad ac ni fyddwn yn gallu derbyn eich cais hebddynt.

Os cawsom gopi o'ch dogfen lywodraethol ers Ionawr 2016, dim ond os newidiwyd y ddogfen y bydd yn rhaid ichi ei hailgyflwyno.

Nid oes raid ichi ddarparu eich dogfen lywodraethol os ydych yn gyngor tref, awdurdod lleol, corff iechyd neu brifysgol.

## Sut i lanlwytho eich dogfennau

Defnyddiwch y gwymplen ar waelod y sgrin i lanlwytho eich dogfennau. Mae pob un o'r dogfennau gorfodol wedi'i chynnwys yn y ddewislen. Mae categori "Arall" hefyd. Gallwch ddefnyddio pob un o'r categorïau hyn fwy nag unwaith, ond sylwer mai uchafswm o 60MB yw maint y ffeiliau ar gyfer atodiadau.

Os bydd angen help arnoch gyda lanlwytho, darllenwch ein canllawiau datrys problemau.

## Gwybodaeth arall i gefnogi eich cais

Bydd angen i chi gyflwyno gwybodaeth ychwanegol gyda'ch cais, y gallwch ei lanlwytho gan ddefnyddio'r categori "Arall" ar y gwymplen. Gallai'r rhain gynnwys:

- Tystiolaeth fod eich cyfranwyr arfaethedig wedi bod yn rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer y prosiect.
- Tystlythyrau
- Enghreifftiau o'ch gwaith creadigol
- CVs gweithwyr proffesiynol creadigol a fydd yn gweithio gyda chi
- Tri dyfynbris ar gyfer unrhyw eitem unigol sy'n costio mwy na £500.
- Cynllun Eich Prosiect
- Cadarnhad o arian partneriaeth, gan gynnwys cymorth mewn nwyddau

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

# Adran 7

Mae'r adran hon yn eich galluogi i adolygu'r wybodaeth rydych wedi ei llenwi hyd yn hyn, a gwneud unrhyw newidiadau. Bydd ein system ar-lein hefyd yn rhoi gwybod i chi os ydych wedi methu unrhyw gwestiynau.

Os ydych yn fodlon ar eich cais gallwch glicio **Cyflwyno**. Bydd hyn yn anfon eich cais atom i'w ystyried.

Bydd copi o'ch cais wedi'i gwblhau ar gael ar ein system ar-lein i chi ei gweld, ar ôl i chi glicio'r botwm i'w gyflwyno. Bydd wedi'i arbed dan yr adran "ceisiadau a gyflwynwyd" ar ein system ar-lein, ar ôl i chi fewngofnodi. Gallwch hefyd argraffu copi ar gyfer eich ffeiliau eich hun.

Ar ôl i chi glicio **Cyflwyno** byddwch yn cael e-bost awtomatig i gydnabod bod eich cais wedi'i dderbyn. Os na fyddwch yn derbyn yr e-bost hwn, edrychwch i weld a yw yn eich ffolder post sothach. Os nad yw'r e-bost yno, gwiriwch eich ffurflen gais a chliciwch y botwm **Cyflwyno** eto.

Os nad ydych wedi gorffen eich cais, cliciwch **Arbed a Gorffen yn Ddiweddarach.** Yna byddwch yn cael e-bost sy'n cynnwys copi o'ch ffurflen ddrafft. Cadwch yr e-bost hwn er mwyn cyfeirio ato.

## Beth sy'n digwydd i'ch cais?

### Gwirio eich ffurflen gais

Byddwn yn cadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais drwy anfon e-bost atoch. Bydd hwn hefyd yn gofyn i chi lenwi eich Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal drwy glicio ar ddolen a fydd yn eich tywys i dudalen benodol ar ein gwefan. Ni ellir ystyried bod eich cais yn gyflawn oni bai eich bod wedi llenwi a chyflwyno'r ffurflen hon.

Byddwn yn gwirio eich cais ac yn ei ddyrannu i swyddog. Dim ond ceisiadau cyflawn y gallwn eu hasesu. Mae hyn yn golygu ceisiadau sy'n cynnwys yr holl wybodaeth rydym wedi gofyn amdani gyda digon o fanylion i ni allu asesu'r cais yn briodol.

Os na fyddwn yn gallu asesu eich cais, yn dda dweud wrthych y prif resymau pam.

### Asesu a gwneud penderfyniad

Bydd Swyddogion Asesu yn ystyried eich cais a'r wybodaeth ategol a ddarparwyd gennych yn ofalus. Ni fyddwn yn gofyn am wybodaeth ychwanegol ar ôl i'r asesiad ddechrau, felly mae'n bwysig eich bod yn ateb pob cwestiwn cystal ag y gallwch, a bod eich gwybodaeth ategol yn ddigon manwl ac yn gywir.

Bydd eich cais yn cael ei ystyried a'i gymharu ag eraill mewn cyfarfod gwneud penderfyniadau wedi'i gadeirio gan uwch aelod o staff.

## Sut rydym yn gwneud penderfyniad

Rydym yn gwybod bod y galw am ein harian drwy Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau yn uchel, ac mae'n rhaid i ni wrthod ceisiadau da oherwydd nad oes digon o arian ar gael. Byddwn yn defnyddio ein blaenoriaethau strategol, ein gwybodaeth am eich sefydliad a'ch gweithgareddau blaenorol, a'n barn broffesiynol i wneud y penderfyniadau anodd hyn. Byddwn bob amser yn ceisio cefnogi'r ceisiadau sydd wedi dangos y dystiolaeth orau y bydd y prosiectau o ansawdd uchel.

## Os bydd eich cais yn llwyddiannus

Byddwch yn cael cynnig grant yn ffurfiol drwy e-bost yn cadarnhau lefel y grant ac unrhyw amodau ychwanegol (er enghraifft, cadarnhad o arian partneriaeth ysgrifenedig). Byddwn hefyd yn anfon ein hamodau grant safonol atoch, ein gofynion achredu a brandio a gwybodaeth am eich taliadau.

## Taliad

Fel arfer caiff grantiau hyd at £5,000 eu talu mewn un taliad pan fyddwn wedi derbyn eich ffurflen derbyn grant wedi'i llofnodi'n electronig (neu wedi'i llofnodi a'i phostio os ydym wedi cytuno i hyn). Ar ôl i ni gael cadarnhad eich bod yn derbyn y cynnig grant ac ar ôl i chi gadarnhau dyddiadau dechrau a gorffen eich prosiect, gallwch ddechrau eich prosiect.

Ar gyfer grantiau dros £5,000 byddwn yn adolygu eich gwybodaeth ariannol (yn cynnwys llif arian) a darparu amserlen dalu. Bydd hyn yn dweud pryd mae angen i ni dderbyn adroddiadau ariannol neu adroddiadau am weithgarwch yn ystod oes eich prosiect a nodi a fydd angen bodloni unrhyw amodau ychwanegol cyn y gellir gwneud taliad. Ar ôl i ni gael cadarnhad eich bod yn derbyn y cynnig grant ac ar ôl i chi gadarnhau dyddiadau dechrau a gorffen eich prosiect, gallwch ddechrau eich prosiect.

## Yn ystod ac ar ôl eich prosiect

Mae'n bwysig ein bod yn gwybod sut mae eich prosiect yn mynd yn ei flaen. Efallai y byddwn yn gofyn i chi am Adroddiad Interim sy'n dweud wrthym am gyllid a gweithgarwch eich prosiect hyd bwynt penodol. Efallai y byddwn yn trefnu i'n swyddogion neu gynghorwyr fynychu gweithgareddau a digwyddiadau er mwyn i ni fod yn hyderus ynglŷn ag ansawdd y gwaith rydych yn ei gyflawni.

Ar ddiwedd eich prosiect byddwn yn gofyn i chi am Adroddiad Cwblhau. Bydd angen i chi ddweud wrthym eich ffigurau incwm a gwariant gwirioneddol, gan gynnwys manylion eich holl arian partneriaeth, manylion gweithgareddau a chanlyniadau allweddol, yn ogystal â gwerthusiad o effaith eich prosiect, gan ddangos sut y mae wedi cyflawni ei hamcanion.

Gellir cwblhau Adroddiadau Interim ac Adroddiadau Cwblhau ar lein.

### Os bydd eich cais yn aflwyddiannus

Os bydd eich cais yn aflwyddiannus byddwn yn anfon llythyr atoch dros yr e-bost yn egluro'r prif resymau dros ein penderfyniad. Byddwch yn gallu trafod hyn gydag aelod o'n staff os dymunwch.

## Angen Rhagor o Wybodaeth?

Mae cyfoeth o wybodaeth ddefnyddiol yn celf.cymru gan gynnwys:

- Cychwyn Arni y Canllaw i *Grantiau Celfyddydol i Sefydliadau,* nodiadau canllaw ar wahân ar gyfer pob maes *Grantiau Celfyddydol i Sefydliadau* a'n Taflenni Gwybodaeth
- Gwybodaeth am ein rhaglenni ariannu eraill
- ein cyhoeddiadau corfforaethol, strategol a gwybodaeth ddiweddaraf
- data ymchwil
- prosiectau rydym wedi eu hariannu
- dolenni i ffynonellau arian eraill
- y Cyfeiriadur Celf
- ein Cylchlythyr a'n Cyflenwad newyddion.

## Cysylltu â Ni

Ffôn: 0845 8734 900 (9am i 5pm ddydd Llun i ddydd Iau)
(9am i 4.30pm ddydd Gwener)

Ebostwich eich syniadau prosiect i: datblygu@celf.cymru. Cofiwch gynnwys y manylion canlynol:

- eich enw
- teitl y prosiect
- disgrifiad o’ch prosiect
- faint o arian sydd arnoch ei angen?
- lleoliad y prosiect

Os oes gennych gwestiynau technegol am y broses ymgeisio, neu angen gwybodaeth bellach am ein rhaglenni ariannu eraill, e-bostiwch: grantiau@celf.cymru

## Beth i'w wneud os na allwch dderbyn arian gan y Loteri Genedlaethol

Os na allwch dderbyn arian y loteri am resymau crefyddol, gofynnwn i chi lanlwytho llythyr gyda'ch cais yn esbonio pam. Os bydd eich cais yn llwyddiannus byddwn yn ceisio ariannu eich prosiect drwy arian a gawn o ffynonellau eraill.

## Ymwadiad

Rydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth a roddwn yn gywir. Nid ydym yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb, a thrwy hyn rydym yn  gwadu unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw un am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan gamgymeriadau neu fylchau yn y wybodaeth a ddarparwn, boed y camgymeriadau neu'r bylchau hyn wedi'u hachosi gan esgeulustod, damwain neu unrhyw reswm arall.

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys